# Strategaeth Gwasanaethau Plant Caerdydd

2019 - 2022



Cael Canlyniadau Ardderchog

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad a sylwadau gan amryw grwpiau cyfranogiad plant**

**2. Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd, y Cynghorydd Graham Hinchey**

**3. Gweledigaeth Cyngor Caerdydd**

**4. Plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd**

**5. Pam rydym yn datblygu'r strategaeth hon nawr?**
- Cynyddu'r galw a'r cymhlethdod
- Mae pwysau cynyddol ar gyllidebau
- a) Mae ystod cynyddol o ddeddfwriaeth, rheoliadau, polisi cymdeithasol a chanllaw y mae'n rhaid i ni roi sylw dyledus iddynt wrth ein gwaith bob dydd
- b) Rydym wedi gosod 25 her allweddol i'n hunain

**6. Sut byddwn ni'n ateb yr heriau hyn?**

**8. Mae darparu goruchwyliaeth gwaith cymdeithasol o safon uchel yn rhan annatod o'n Cynllun Datblygu'r Gweithlu**

**9. Datblygu set o egwyddorion canllaw cyffredinol**

**10. Ailsiapio ac ailstrwythuro'r model darparu'r gwasanaeth**

**11. Dilyn y plentyn ar ei daith**

**12. Datblygu ein trefniadau comisiynu**

**13. Newid cydbwysedd gofal**

**14. Cymorth Cynnar**

**15. Hyb Diogelu Aml Asiantaeth**

**16. Mewnlif ac Asesu**

**17. Cynlluniau Gofal a Chymorth**

**18. Amddiffyn a Diogelu Plant**

**19. Crynodeb o'r Gyfraith Gyhoeddus a Chynllunio Llety Parhaol**

**20. Plant sy'n Derbyn Gofal**

**21. Mabwysiadu**

**22. Cynllunio Llwybr Gadael Gofal**

**23. Cynorthwyo plant ag anabledd, anghenion dysgu ychwanegol neu ddiagnosis newroddatblygiadol**

**24. Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid**

**25. Meysydd ymarfer a datblygu sy'n dod ac a fydd yn rhoi'r gallu i ni wireddu ein blaenoriaethau allweddol**
- 1. Cyfarfodydd Rhwydwaith Teuluoedd
- 2. Paneli Adnoddau
- 3. Adolygu ein trefniadau ar gyfer Gofalwyr Tylwyth i gynorthwyo ein nod o newid y cydbwysedd gofal
- 4. Strategaeth Manteisio ar Aml Asiantaethau
- 5. Byddwn yn adolygu ac ail-siapio ein Gwasanaeth Maethu i gynorthwyo ein nod o newid y cydbwysedd gofal
- 6. Mabwysiadu Dull o ymarfer ar Sail Nerth trwy weithredu Arwyddion Diogelwch

**26. Casgliad**

# 1. Cyflwyniad a sylwadau gan amryw grŵp cyfranogiad plant

**Cyflwyniad:**
Mae'r ddogfen hon yn nodi un Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau'r Plant dros y tair blynedd nesaf. Mae'n dod ag ystod o brojectau gwella'r gwasanaeth ynghyd dan raglen 'Cael Canlyniadau Ardderchog yng Ngwasanaethau'r Plant'. Mae'n defnyddio cynlluniau eraill sefydledig, yn cynnwys y Cynllun Rhianta Corfforaethol; Cynllun Uchelgais Prifddinas y Cyngor; y Cynllun Dinas sy'n Dda i Blant a'r Rhaglen Gwella Canlyniadau gyfredol.

Mae'r strategaeth yn nodi'r cyd-destun y mae Gwasanaethau'r Plant yn gweithredu ynddo a'r heriau allweddol rydym yn eu hwynebu. Mae'n amlygu lle rydym eisiau gwneud gwahaniaeth a sut rydym yn mynd i wneud y newidiadau hynny.

Mae'r Strategaeth yn nosi'r amryw gynlluniau gwella yng nghyd-destun taith y plentyn a'r egwyddorion cynllunio sy'n uchelgais gennym. Mae hefyd yn disgrifio'r amryw newidiadau ymarfer a gweithdrefnol y mae eu hangen i wireddu ein huchelgais o gael canlyniadau ardderchog ar gyfer plant a phobl ifanc.

Dogfen Cyngor Caerdydd yw'r Strategaeth hon ac fe'i crëwyd i gyflwyno gwybodaeth i swyddogion, aelodau etholedig, partneriaid a chymunedau ynghylch cyfeiriad yr hynt a'n huchelgeisiau mawr ar gyfer Gwasanaethau'r Plant yng Nghaerdydd. Mae llawlyfr ymarfer cysylltiedig yn cael ei ddatblygu i gynorthwyo staff gwaith cymdeithasol a'u rheolwyr i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i bobl Caerdydd.

Mae Gwasanaethau'r Plant Caerdydd yn rhoi'r plentyn yng nghanol popeth rydym yn ei wneud. Mae'n hanfodol y caiff llais plant ei glywed a'u hawliau eu parchu. Bydd gwrando barn plant a phobl ifanc yn rhan annatod o fwrw ymlaen â'n hagenda creu rhagoriaeth. Mae rhai enghreifftiau gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd isod:

Fel rhan o ddatblygiad y strategaeth hon cynhaliwyd ymarfer gwrando gyda phobl ifanc o **Fforwm Dechrau Disglair, y Tîm 11+ a Chanolfan Adnoddau'r Glasoed.** Mae'r adroddiad llawn ar gael, ond mae detholiad o'u sylwadau wedi'u cynnwys yn y strategaeth.

"Hoffwn ddiolch i fy ngweithiwr cymdeithasol am yr holl gymorth mae wedi ei roi i mi, a fy nghynorthwyo ar bob cam o'r daith a holi i weld sut rydw i. Y llynedd, ces i amser caled iawn ac fe helpaist ti fi trwy fy achos llys a rhoi llawer o ddewrder a hyder i mi. Bues i'n lwcus dy gael wrth fy ochr. Bues i'n hy iawn gyda ti i gychwyn ac mae'n ddrwg iawn gen i am hynny, ond hyd yn oed bryd hynny, buost ti'n dawel dy dymer ac yn amyneddgar gyda fi. Rwyt ti wedi gwneud cymaint drosof fi a fy mab. Dw i'n dy barchu di'n fwy na neb ac nawr ei bod hi'n amser ffarwelio, bydda' i'n gweld dy eisiau di yn ofnadwy."

"Mae fy ngweithiwr cymdeithasol yn anhygoel, mae hi mor weithgar ac mae'n rhoi popeth i bob tasg. Rwy'n hynod ddiolchgar o gael rhywun fel hi yn weithiwr cymdeithasol i mi. Rwy'n teimlo nad ydw i'n ei chanmol ddigon am y pethau mae'n eu gwneud drosof fi felly rydw i eisiau iddi wybod fy mod i'n ferch mor falch gyda hithau'n fy helpu i gyrraedd dy nhargedau."

"Diolch i chi am eich holl gymorth a diolch am adael i mi fyw â'm modryb â'm hewythr ac am eich holl gefnogaeth."

"Cafodd y gweithiwr cymdeithasol a drefnodd fabwysiadu fy mhlant effaith gadarnhaol iawn ar fy mywyd"

"Prif ystyriaeth y gweithiwr cymdeithasol oedd budd gorau fy mhlant."

# 2. Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd, y Cynghorydd Graham Hinchey



Croeso i Strategaeth Gwasanaethau'r Plant Cyngor Caerdydd.

Plant a phobl ifanc Caerdydd yw dyfodol ein dinas. Mae'r strategaeth wedi ei chreu i helpu i ateb eu hanghenion, gweithio â nhw i wireddu eu huchelgeisiau a chael y canlyniadau gorau ar eu cyfer.

Hoffwn ddiolch i'r staff rheng flaen cydwybodol ac ymrwymedig yng ngwasanaethau'r plant am eu gwaith caled ac ymdrechion parhaus.

Rydym yn falch o'n llwyddiannau yn y blynyddoedd diwethaf ond rydym yn cydnabod bod nifer o heriau allweddol a meysydd i wella eto. Rydym wedi meithrin partneriaethau cryf ac effeithiol a gosod y seiliau ar gyfer sicrhau gwelliannau trwy gydweithio. Byddwn yn parhau i ymrwymo wrth wella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc ac rydym eisiau eu helpu i wneud bywyd gwell i'w hunain. Mae'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol trwy Brydain wedi cael sylw cynyddol yn y blynyddoedd diweddar. Effaith cynni ar bobl, cymunedau a chyllidebau'r llywodraeth leol ydy y gall heriau amddifadedd achosi angen cynyddol am gymorth y Gwasanaethau Cymdeithasol, ac rydym wedi gweld hyn yn benodol yng Ngwasanaethau'r Plant.

Bu datblygiadau cadarnhaol iawn yng Ngwasanaethau'r Plant – mae'r dull gweithredu newydd ar gyfer Cymorth Cyntaf ac Atal; effaith Canolfan Adnoddau'r Glasoed a Meddwl am Ddiogelwch er mwyn cynorthwyo plant a phobl ifanc sydd ar fin derbyn gofal ac sy'n wynebu risg o ecsbloetio yn galonogol iawn. Mae'n galonogol gweld y cynnydd a wneir wrth weithredu arwyddion diogelwch trwy dimau Gwasanaethau'r Plant.

Mae'n braf gweld yr agwedd onest a didwyll at gryfderau, meysydd i'w gwella a'r camau gweithredu blaenoriaethol sydd yn yr adroddiad hwn. Rydym yn ymrwymo wrth fynd i'r afael â'r heriau o ran recriwtio a chadw ein gweithlu yng Ngwasanaethau'r Plant. Rydym yn gwella atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer plant a phobl ifanc, yn cynnwys datblygu'r Gwasanaeth Cymorth Cynnar.

Rydym yn bryderus dros faint ac ansawdd y llety a chymorth ar gyfer ein plant sy'n derbyn gofal a'r niferoedd sy'n byw y tu allan i Gaerdydd a'r awdurdodau cymdogol. Rydym yn gweithredu gwasanaethau newydd yn agos at y cartref i gynorthwyo mwy o blant i fyw yng Nghaerdydd pan fo hynny er budd iddynt.

Mae'r strategaeth hon yn gyfle cyffrous i ymateb i'r nifer o heriau mae plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd yn eu hwynebu. Ein nod yw gwneud ein dinas yn lle gwell fyth i fyw ynddo er mwyn i bob plentyn a phobl ifanc allu gwireddu ei botensial a byw bywyd diogel, hapus ac iach.



**Y Cyng. Graham Hinchey**
Yr Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd

# 3. Gweledigaeth Cyngor Caerdydd

I nifer o blant a phobl ifanc yn ein dinas, mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu. Mae'r ddarpariaeth addysg a llwyddiannau dysgwyr yn gwella. Mae'r ddinas yn cynnig llu o gyfleodd chwaraeon, hamdden a diwylliant ac wrth i'r economi ddatblygu mae ystod mwy eang o gyfleoedd swyddi o fewn gafael. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw ein holl bobl ifanc yn elwa, ac rydym yn gwybod bod angen i ni wneud mwy i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn o ran llwyddiant, cyfranogiad a chynnydd.

**Dod yn Ddinas sy'n Dda i Blant**

Mae Caerdydd yn un o bum dinas yn y DU sy'n datblygu fel 'Dinas sy'n Dda i Blant' mewn partneriaeth ag UNICEF UK. Golyga hyn ein bod yn rhoi hawliau plant a phobl ifanc wrth gallon ein polisiau a strategaethau; rydym yn cynnwys pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ac yn ymroi i fynd i'r afael â rhwystrau yn eu bywydau.

**Cynorthwyo Plant a Theuluoedd sy'n Agored i Niwed**

Rhieni sy'n effeithio'n fwyaf sylweddol ar blant a'u bywydau yn y dyfodol. Ceir y canlyniadau gorau ar gyfer plant gan gânt eu cynorthwyo i dyfu a llwyddo yn eu teuluoedd eu hunain. Ym mhob achos, byddwn yn defnyddio dull 'Meddwl am y Teulu', sy'n ystyried y teulu cyfan ac yn cydlynu cymorth trwy'r Gwasanaethau cyhoeddus, at ddiben anghenion a chryfderau pob teulu. Bydd partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn cynnwys athrawon, ymarferwyr Iechyd, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid  ymarferwyr y trydydd sector, ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a gweithwyr chwarae yn cydweithio i weithredu dull cysylltiedig i alluogi'r sgyrsiau cywir ar yr adeg gywir, rhwng y bobl gywir a chawl atebion ar yr adeg gyntaf , bosibl yn enwedig ar gyfer y plant a theuluoedd mwyaf agored i niwed.

Mae angen i bawb gymryd cyfrifoldeb dros adnabod a diogelu plant sy'n agored i niwed. Yn ein cymunedau lleol, rydym eisiau i bobl deimlo grym i wybod pan deimlent fod plentyn mewn risg – gall hyn fod yn geidwad siop y mae gofyn iddo werthu sigaréts i blentyn ar gyfer ei rieni neu gasglwyr sbwriel sy'n gweld poteli wedi malu a sbwriel wrth ymyl teganau plant sydd wedi cael defnydd da – gallai hyn godi pryderon na fyddai'r gwasanaethau cyffredin i deuluoedd wedi sylwi arnynt. Bydd hyn ar sail dull gweithredu gan Wasanaethau'r Plant sy'n rhoi pwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar i roi'r canlyniad gorau bosibl i blant a rheoli'r pwysau sydd ar wasanaethau cyhoeddus yn well.

UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION



# 4. Plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd


Mae Caerdydd eisoes yn lle da i lawer o'i phlant a phobl ifanc dyfu. Yn benodol, mae pobl ifanc yn dweud bod gwasanaethau iechyd y ddinas, y gyfradd droseddau isel, y cymunedau cryf a chynhwysol a'r mynediad at dir glas, chwaraeon, hamdden a diwylliant yn un o'r pethau gwych am fyw yn y brifddinas.

Er mai Caerdydd ydy calon fasnachol economi Cymru ac mae'n cynnwys nifer o gymunedau mwyaf cyfoethog y wlad, mae dros chwarter o'r plant dibynnol dan ugain oed yma yn byw mewn tlodi. Gall tyfu mewn tlodi effeithio'n negyddol ar gyfle plentyn yn y dyfodol a'i les a gall profiadau plentyn yn gynnar, cyn mynd i'r ysgol arwain at oedi yn natblygiad sgiliau iaith, emosiynol a chymdeithasol ac iechyd wael yn gyffredinol.


Mae gwahaniaethau sylweddol yn y ganran o blant dibynnol dan ugain oed sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel rhwng ardaloedd yn y ddinas. Yn Nhrelái, Sblot ac Adamsdown, mae tua 40 % o'r plant yn byw mewn aelwyd incwm isel.

Ni fydd twf cyflym Caerdydd yn digwydd yn hafal dros y grwpiau oedran. Er y bydd nifer sylweddol yn fwy o bobl mewn oedran gweithio, bydd mwy hefyd o blant ysgol a phobl dros 65 oed – dau grŵp y bydd angen rhagor o gymorth arnynt gan y gwasanaethau cyhoeddus. Rhagwelir y bydd nifer y bobl ifanc (dan 18) yng Nghaerdydd yn cynyddu dan 25 % dros yr ugain mlynedd nesaf, o'i gymharu â chynnydd gan 0.8 % trwy Gymru gyfan.

Twf Poblogaeth a Ragfynegir 2018-2038 yn ôl grŵp oedran




Twf Poblogaeth a Ragfynegir mewn dinasoedd dethol yn y DU 2018-38



# 5. Pam rydym yn datblygu'r strategaeth hon nawr?

Rydym wedi edrych ar wybodaeth o nifer o ffynonellau a gwrando ar beth mae amryw o bobl wedi ei ddweud wrthym am Wasanaethau'r Plant er mwyn llunio ein strategaeth tair blynedd. Mae hyn wedi cynnwys data adolygu, cofnodion achos, geiriau da a chwynion, adroddiadau arolygon, ymholiadau ynghylch aelodau etholedig, gwybodaeth berfformio ac adborth gan blant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, ein gweithlu a'n hasiantaethau partner.

**BYDDWN NI'N**

**Datblygu dull system gyfan o wella a monitro perfformiad, yn defnyddio cardiau cofnod sy'n gywir, cyfredol, clir a chryno ac ystyrlon.**

Rydym yn gwybod bod angen i ni wrando ar blant a phobl ifanc yn well a sicrhau y clywir eu llais a bod ganddynt fwy o ran yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a'r gwasanaeth ehangach.

**BYDDWN NI'N**

**Defnyddio'r fframwaith Caerdydd sy'n Dda i Blant i sicrhau y bydd hyn yn digwydd.**

Rydym hefyd yn gwybod bod rhaid i ni wella sut rydym yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni i sicrhau y cânt gymorth i ofalu am eu plant pan fo hynny'n bosibl ac y gallant ddylanwadu'n well ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol ac ar y gwasanaeth ehangach.

**BYDDWN NI'N**

**Datblygu siarter cyfranogiad rhieni ac yn sicrhau y caiff ei gynhyrchu ar y cyd â rhieni, ar gyfer rhieni.**

Rydym eisiau cael ffyrdd mwy effeithiol o ymgysylltu â'n gweithlu; mae gennym eisoes hyrwyddwyr yn y gweithlu sy'n gysylltiadau allweddol rhwng uwch reolwyr a'r gweithlu, cyfarfodydd estynedig misol rhwng y Cyfarwyddwr Cynorthwyo a'r holl dîm rheoli a digwyddiadau agored rheolaidd lle caiff staff y brif raddfa holi'r Cyfarwyddwr.

**BYDDWN NI'N**

**Gofyn i weithwyr trwy arolwg am syniadau ar gymryd rhan well mewn siapio'r gwasanaeth ac rydym eisoes wedi cynllunio cyfres barhaus o sioeau teithiol fel rhan o wella ymgysylltu.**



# Cynyddu’r galw a’r cymhlethdod


Noda Cymdeithas Llywodraethau Lleol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru eu Datganiad Safbwynt ar Wasanaethau’r Plant. Mae pedwar maes allweddol lle mae pwysau sylweddol mewn perthynas â Gwasanaethau’r Plant yng Nghymru:

- Galw allanol a chymhlethdodau
- Lleoliadau
- Deddfwriaeth as gwaith gyda’r Llysoedd
- Y gweithlu

Mae’r pwysau hyn wedi eu cydnabod yng Nghaerdydd. Mae nifer y plant sy’n derbyn gofal yng Nghaerdydd wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae cyfraddau’r cynnydd yn llawer uwch na chyfradd y cynnydd ym mhoblogaeth y plant ifanc. Bu’r cynnydd mwyaf mewn lleoliadau preswyl a’r rhai a rhoddir gyda rhieni..

Mae Datganiad Safbwynt y ddwy gymdeithas uchod yn nodi’r tair neges allweddol hyn:

- Yn y blynyddoedd diweddar, bu cynnydd yn y gwariant ar Wasanaethau’r Plant pan gaiff cyllideb gyffredinol y Cynghorau eu torri.
- Dros y degawd diwethaf, mae nifer y plant yn y system ofal yng Nghymru wedi cynyddu’n sylweddol.
- Mae gwasanaethau gofal ac amddiffyn plant sy’n agored i niwed nawr wedi cyrraedd pen eithaf mewn rhai ardaloedd




| | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2018 | 31 Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|
| Ceraint | 101 | 74 | 41 |
| Maethu mewnol | 101 | 102 | 89 |
| Maethu asiantaeth | 391 | 391 | 361 |
| Preswyl | 70 | 54 | 55 |
| Lleolwyd â rhieni | 142 | 119 | 93 |
| Byw yn annibynnol | 33 | 46 | 58 |
| Gosodwyd ar gyfer mabwysiadau | 33 | 32 | 20 |
| Arall | 21 | 12 | 4 |
| **Cyfanswm** | **900** | **830** | **721** |

# Mae pwysau cynyddol ar gyllidebau

**Cyd-destun y Cyngor cyfan**

Cyfanswm cyllideb Cyngor Caerdydd ar gyfer 2019/20 yw £624m ac mae cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol yn £169m o hynny sy'n cynnwys £58m ar gyfer Gwasanaethau'r Plant (gyda £2m arall wrth gefn).

Mae Ysgolion a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn 66 % o'r gyllideb bresennol yn 2019/20. Wedi ystyried gofynion ariannu cyfalaf a chyllidebau na ellir eu rheoli, dim ond 14 % o gyllideb y Cyngor sydd ar ôl.

**Cyllidebau a gwariant Gwasanaethau'r Plant**

Gellir gweld mai ar gyrff allanol a lleoliadau y mae'r gwariant mwyaf. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae Gwasanaethau'r Plant wedi gorwario gan y symiau isod:


- 2015/16 £2,013,000
- 2016/17 £4,277,000
- 2017/18 £3,996,000
- 2018/19 £4,240,000

Er bod y gwariant ychwanegol yn dangos ymrwymiad y Cyngor i ateb y galw cynyddol am Wasanaethau Cymdeithasol y Plant, daw hyn yn anghynaladwy. Dywed Datganiad Safbwynt y ddwy gymdeithas:


Mae'n hysbys mai'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi effeithio'n fwyaf sylweddol ar y swm a warir sydd dros faint y gyllideb, a'r cynnydd canlynol yn y lleoliadau allanol.

> "Mae'r arian cyfyngedig sydd ar gael i gynghorau yn mynd yn fwy ac yn fwy ar ddarparu cymorth brys i blant a theuluoedd sydd eisoes mewn argyfwng, sy'n gadael ychydig iawn i fuddsoddi mewn ymyrraeth gynnar. Arweinia hyn at droell o angen di-dor a chynyddol am wasanaethau, sy'n creu heriau mwy a mwy cymhleth ar gyfer y plant sydd fwyaf agored i niwed. (Papur Safbwynt Cymdeithas Llywodraethau Lleol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2018)"

**Y Fforwm Dechrau Disglair, y Tîm 11+ a Chanolfan Adnoddau'r Glasoed.**




# a) Mae ystod cynyddol o ddeddfwriaeth, rheoliadau, polisi cymdeithasol a chanllaw y mae'n rhaid i ni roi sylw dyledus iddynt wrth ein gwaith bob dydd





**A Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.**

Cynllun uchelgeisiol ar gyfer chwyldro system gyfan. Mae'r Cynllun yn pwysleisio ar yr angen i weithredu gwasanaethau di-dor, sy'n canolbwyntio ar y boblogaeth, gan ddefnyddio technoleg yn well a rhoi llawer mwy o bwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar.




**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Y nod yw gwella lles Cymru. Bydd yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus feddwl yn fwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'r naill â'i llall, ceisio datrys problemau a chymryd dull mwy cyfunol.





**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n gofyn iddynt weithio i hyrwyddo lles i rhoi y mae arnynt angen gofal a chymorth neu ofalwyr y mae arnynt angen cymorth.



**Deddf Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (Cymru)**

Bydd hon yn trawsnewid systemau ar wahân ar gyfer anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion ac anawsterau dysgu a/neu anableddau mewn addysg bellach, i greu system gyfunol i gynorthwyo dysgwyr o 0 i 25 oed.




**Cyfarwyddyd Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) Cymru 2015**

Gosod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru.

Yn ogystal â'r deddfau a nodir uchod, mae'r rheoliadau canlynol yn weithredol:

- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Panel ac Addasiadau Canlynol) (Cymru) 2012
- Rheoliadau Gwarcheidwaeth Arbennig (Cymru) (Addasiad) 2018
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Rheoliadau Gadäwyr Gofal (Cymru) 2015
- Rheoliadau Ymweliadau â Phlant dan Gadwad (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysedd) (Cymru) 2015 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesu) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Gweithdrefnau Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014
- Rheoliadau'r Weithdrefn Gynrychioli (Cymru) 2014
- Rheoliadau'r Timau Cymorth i Deuluoedd Integredig (Adolygu Achosion) (Cymru) 2012
- Rheoliadau Ymweld â Phlant mewn Gofal Preswyl Hirdymor 2011
- Rheoliadau Adolygiad Annibynnol ar Benderfyniadau (Mabwysiadu a Maethu) Cymru 2010
- Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007
- Rheoliadau Plant (Trefniadau Maethu Preifat) (Cymru) 2006
- Rheoliad Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdod Lleol) (Cymru) 2005
- Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Pobl y mae arnynt Angen Gofal a Chymorth a Gofalwyr y mae arnynt Angen Cymorth
- Fframwaith Sefydlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd Cymru gyfan

# b) Rydym wedi gosod 25 her allweddol i'n hunain

1. Caiff llais y plentyn a'r person ifanc ei glywed

2. Mae'r bartneriaeth â rhieni bob tro yn amlwg

3. Mae partneriaid yn glir ynghylch y trothwyon a'r dyletswyddau a roddir ar Wasanaethau'r Plant

4. Gallwn weithio â phartneriaid i ostwng effaith ecsbloetio ar blant a phobl ifanc

5. Rydym yn ystyried effaith gynyddol tlodi ar deuluoedd

6. Gallwn reoli a gostwng y galw cynyddol am wasanaethau

7. Gallwn reoli cymhlethdod cynyddol yr achosion a llwythi achos yn effeithiol

8. Rydym yn ateb y safon ac amserlenni sy'n ofynnol yn yr Amlinelliad Cyfraith

9. Gallwn ostwng yn ddiogel nifer cynyddol y plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

10. Rydym yn ateb yr holl ddyletswyddau a'r cyfrifoldebau statudol sydd arnom.

11. Gallwn gynyddu nifer y Gofalwyr sy'n perthyn

12. Gallwn godi nifer gofalwyr maeth yr awdurdod lleol

13. Gallwn gynyddu nifer y lleoliadau i ateb anghenion mwy cymhleth

14. Gallwn ostwng faint rydym yn dibynnu ar leoliadau asiantaethau maethu

15. Gallwn ostwng faint rydym yn dibynnu ar leoliadau y tu allan i'r sir

16. Gall recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol ateb y galw presennol a'r dyfodol

17. Mae'r wybodaeth, gwerthoedd a sgiliau perthnasol gan ein gweithlu

18. Mae modelau ymarfer clir gennym sydd wedi eu hachredu ac eu creu ar sail tystiolaeth

19. Mae ein cofnodion achos o safon dda ac maent yn ateb canllawiau ymarfer da

20. Rydym yn gwneud penderfyniadau clir, cyson ac ar sail tystiolaeth a chânt eu cofnodi'n dda.

21. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol a chyfredol ar waith gennym.

22. Mae gennym Fframwaith Sicrwydd Ansawdd wedi ei ddatblygu yn llawn

23. Mae gennym fframwaith canlyniadau wedi ei ddatblygu'n llawn

24. Mae gan ein holl bartneriaid yn cynnwys y rheoleiddwyr ffydd yng Ngwasanaethau'r Plant.

25. Mae gan y cymunedau ffydd yng Ngwasanaethau'r Plant.


# 6. Sut byddwn yn diwallu'r heriau hyn?

## BYDDWN YN:

Creu Bwrdd 'Cyflawni Rhagoriaeth yn y Gwasanaethau Plant' a gadeirir gan y Prif Weithredwr ac a fynychir gan aelodau'r uwch dîm rheoli i oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r Strategaeth hon a monitro ei heffaith.

Bydd y ffrydiau gwaith yn ymdrin â'r holl heriau a wynebwn trwy nifer o brojectau a'r cwbl ohonynt yn alinio â siwrne'r plentyn.  Caiff yr holl ffrydiau gwaith hyn eu tanategu gan y projectau trosfwaol a fydd yn cael effaith ar draws y system gyfan; cynllunio'r gweithlu, ail-lunio ac ailstrwythuro'r model darparu gwasanaeth, datblygu'r strategaeth gomisiynu a mabwysiadu dull seiliedig ar hawliau, cryfderau a thystiolaeth o ran arfer.


Bydd gan y rhaglen Cyflawni Canlyniadau Rhagorol set glir o gerrig milltir allweddol a chanlyniadau allweddol i'w cyflawni.



# 7. Mae'r cwbl wedi'i danategu gan y Cynllun Datblygu'r Gweithlu

Cafodd y Cynllun Datblygu'r Gweithlu ei greu i ymdrin â nifer o faterion a wynebir gan y Gwasanaethau Plant sef:

- Cael trafferth recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwys i dimau rheng flaen
- Dibynnu ar staff asiantaeth yn draddodiadol i lenwi swyddi gwag ond mae hyn nawr yn peri problem
- Dull tameidiog o ran recriwtio a chadw
- Yr angen am gynllun gweithlu ar gyfer y gwasanaeth cyfan
- Diffyg ymgyrch recriwtio gweledEdd uchel ar draws yr holl gyfryngau
- Diffyg gwybodaeth mewn cysylltiad â sefydlu tîm a lle mae swyddi gwag yn bodoli
- Cwblhau prosesau gan awdurdodau lleol eraill mewn perthynas â chyflogau ac ysgogiadau
- Cyfleoedd recriwtio lleol e.e. Ni fanteisir yn llawn ar brifysgolion a ffeiriau swyddi
- Ni fabwysiedir yn systematig ddull 'pwyllog' o ran y gweithlu e.e. mae gweithwyr cymdeithasol ond yn gwneud yr hyn y gall gweithwyr cymdeithasol ei wneud, fel bod tasgau nad oes angen gweithiwr cymdeithasol ar eu cyfer yn gallu cael eu gwneud gan weithiwr arall, fel gweithiwr cymorth
- Sicrhau bod gennym amrywiaeth o rolau a chymysgedd sgiliau priodol i ddiwallu anghenion y teuluoedd yr ydym yn gweithio gyda hwy




**BYDDWN YN:**

- **Datblygu Strategaeth Datblygu Gweithwyr Cymdeithasol**
- **Sicrhau bod tâl gweithwyr cymdeithasol yng Nghaerdydd yn adlewyrchu'r lefel o gyfrifoldeb sydd ynghlwm â'r rôl a'i bod yn gystadleuol ag Awdurdodau Lleol eraill**
- **Cyflwyno cynllun hyfforddi a mentora i weithwyr cymdeithasol a rheolwyr**
- **Datblygu cynllun clir i leihau dibynadwyedd ar weithwyr asiantaeth, tra'n sicrhau bod trefniadau cyfredol yn diwallu ein hanghenion**
- **Cynnal cyfweliadau gadael i ddeall y rhesymau dros adael**
- **Sicrhau bod ymgyrchoedd marchnata priodol mewn lle**
- **Cynnal arolygon boddhad staff rheolaidd**
- **Cynnal sesiynau briffio staff rheolaidd**
- **Ailwampio'r cynllun gweithredu Arwyddion Diogelwch**
- **Rheoli staff sy'n symud o dimau â llawer o bwysau arnynt i dimau â llai o bwysau arnynt**

# 8. Cyflawni gwaith cymdeithasol o safon uchel Mae goruchwyliaeth yn rhan allweddol o'n Cynllun Datblygu'r Gweithlu

Mae goruchwyliaeth reolaidd o safon dda o waith cymdeithasol yn holl bwysig o ran cyflawni canlyniadau rhagorol i blant ac yn ofynnol ar gyfer sicrhau arfer da a gwneud penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth. Mae hefyd yn rhan allweddol o gynllun datblygu'r gweithlu cadarn.

Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 yn nodi y dylai staff sy'n gweithio ym maes amddiffyn plant gael eu goruchwylio mewn ffordd sy'n:

> ***"Helpu i sicrhau bod arferion wedi'u seilio'n gadarn ar Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ac yn gyson â hwy. Dylai unrhyw oruchwylio hefyd sicrhau bod penderfyniadau allweddol a wneir, a chanllawiau a roddir, wrth oruchwylio, yn cael eu cofnodi'n glir mewn ffeiliau achos"***

Mae Gwasanaethau Plant yn datblygu 'Canllaw Arfer Da ar Oruchwylio' (a cherdyn adrodd perfformiad cysylltiedig) sy'n pwysleisio y dylai trafodaethau goruchwylio gael eu cofnodi'n glir ar gofnodion cleientiaid unigol ar system cofnodi cleientiaid CareFirst. Bydd hyn yn dangos pam bod penderfyniadau'n cael eu gwneud a chamau cytunedig y gweithiwr. Bydd hefyd yn ei wneud yn ofynnol bod sesiynau goruchwylio'n gyson ar draws y timau o ran y ffordd y maen nhw'n cael eu cofnodi ar CareFirst i sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn glir ac yn hawdd ei darganfod.

Mae Gwasanaethau Plant Caerdydd wedi mabwysiadu dull seiliedig ar gryfderau o ran gweithio â phlant a theuluoedd sy'n defnyddio'r model Arwyddion Diogelwch, felly mae enghraifft o oruchwylio wedi'i dylunio o fewn CareFirst i arwain trafodaethau. Dylai cofnodion goruchwylio ddangos yr asesiad tair colofn a ddylai lifo gydol ymgysylltiad teulu â'r gwasanaeth ('beth yw gweithio'n dda', 'beth ydyn ni'n poeni amdano' a 'beth sydd angen cael ei wneud nesaf'). Dylai datganiad perygl sy'n helpu i roi disgrifiad clir o'r risg a'i effaith ar y plentyn hefyd gael ei drafod a'i gofnodi ar gyfer pob teulu yn ystod sesiynau goruchwylio.

**BYDDWN YN:**

- **Diweddaru'r Polisi Goruchwylio i roi canllawiau ar amlder, safon a chofnodi**
- **Rhoi hyfforddiant gloywi i reolwyr ar bwysigrwydd goruchwylio a sut i oruchwylio gan ddefnyddio'r model Arwyddion Diogelwch**
- **Diweddaru a gweithredu'r Protocol Archwiliad Goruchwylio a'r cerdyn adrodd**
- **Archwilio achosion Troseddau Ieuenctid (ddim ar CareFirst, system cofnodi cleientiaid y Gwasanaethau Cymdeithasol, ar hyn o bryd)**
- **Ehangu archwilio i gynnwys Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd a'r Ganolfan Adnoddau Arddegau**
- **Sicrhau bod achosion lle nad yw goruchwylio wedi'i gofnodi am 3 mis yn cael eu nodi gan y Tîm Perfformiad a bod camau gwella brys yn cael eu cymryd gan reolwyr**

# 9. Datblygu cyfres trosfwaol o egwyddorion arweiniol

Ein prif egwyddor sy'n arwain popeth a wnawn yw y dylai pob plentyn a pherson ifanc gymryd rhan actif ym mhob penderfyniad sy'n effeithio arnyn nhw. Dylent gael y cyfle i gael eu magu gan eu rhieni neu deulu a ffrindiau oni bai nad yw hynny'n dda iddynt, a dylai pob plentyn a pherson ifanc allu byw bywyd heb gael eu cam-drin, eu niweidio, neu eu hecsbloetio.

“Os nad wyf i'n gwybod fy hawliau, dyw fy rhieni'n sicr ddim, hanner yr amser nhw yw'r broblem”

“Mae'n broblem fawr, nid nad ydyn nhw'n gwrando, 'dy nhw ddim hyd yn oed yn holi”

Y Fforwm Dechrau Disglair, Tîm 11+ a'r Ganolfan Adnoddau Arddegau.

**BYDDWN YN:**

Datblygu set o egwyddorion cefnogol i'w mabwysiadu ar draws y Gwasanaethau Plant a Chymorth Cynnar:

- **Dull cryfhau teuluoedd sy'n canolbwyntio ar gryfderau teuluoedd ac sy'n helpu rhieni i fagu plant gartref i gyflawni eu canlyniadau gorau lle y bo'n realistig a phosibl; dylai teuluoedd allu adnabod eu problemau, eu hanghenion a'u hatebion eu hunain**
- **Defnyddir dull Ffocws Ar Y Teulu i ddeall anghenion y teulu cyfan, nid dim ond y plentyn, drwy weithio mewn partneriaeth â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill.**
- **Dull seiliedig ar ganlyniadau â chanlyniadau clir a mesuradwy i blant a theuluoedd; bydd mentrau newydd ac aildargedu adnoddau yn seiliedig ar dystiolaeth o 'beth sy'n gweithio'**
- **Rhoi'r lefel gywir o gymorth ar yr adeg gywir drwy weithredu cynllun clir, canlyniadau a chymorth wedi'i deilwra â'r teulu.**
- **Dull partneriaeth cysylltiedig a fydd yn defnyddio mentrau traws-bartneriaeth ehangach i sicrhau'r effaith fwyaf ac ail-dargedu adnoddau partner i leihau'r galw neu isgyfeirio ymyriadau i'r lefelau isaf priodol**
- **Caiff dealltwriaeth ac iaith a rennir eu llunio ar draws y ddinas a dull “dim drws anghywir” gyda'r holl bartneriaid sy'n cefnogi teuluoedd.**
- **Deall effaith tlodi a defnyddio gwasanaethau cyngor ac i mewn i waith yn rheolaidd i sicrhau'r lefel uchaf o incwm a datrys problemau ag incwm a thai i deuluoedd.**
- **Bydd ymgysylltu effeithiol ac ystyrlon â theuluoedd yn galluogi'r grwpiau hyn i gyfrannu at weithredu'r model a rhoi adborth o'u barn a'u hawgrymiadau er mwyn adolygu a gwerthuso canlyniadau'n barhaus.**
- **Bydd angen sicrhau datblygu'r gweithlu'n effeithiol a pharhaus i roi'r hyder a'r profiad angenrheidiol i weithwyr weithio'n uniongyrchol â theuluoedd, yn enwedig wrth roi ymyriadau allgymorth a dwys.**

# 10. Ail-lunio ac ailstrwythuro'r model darparu gwasanaeth

Bydd datblygu'r Gwasanaeth Cymorth Cynnar yn gwella'r ffordd y mae teuluoedd yn cael cyngor, cymorth a chefnogaeth drwy uno nifer o wasanaethau sydd mewn cyfarwyddiaethau neu wasanaethau ar wahân ar hyn o bryd.

Bydd yr Hyb Diogelu Amlasiantaethol (HDAA) (gweler tudalen 21 am ragor o wybodaeth) yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth Cymorth Cynnar ac yn cynnig pwynt mynediad ar gyfer gofal cymdeithasol statudol pan fo hynny'n ofynnol. Mae'r adolygiad cyfredol o HDAA wedi amlygu nifer o gyfleoedd i symleiddio llwybrau atgyfeirio ac ymgymryd â gwaith ar y cyd.

Mae bygythiadau cynyddol o ran ecsbloetiaeth i bobl ifanc yng Nghaerdydd ac er bod gennym nifer o wasanaethau i'w cefnogi mae gwahaniaeth rhyngddynt ac maen nhw'n dod dan wasanaethau ar wahân.



Dylai plant a phobl ifanc allu aros gyda theulu a ffrindiau lle bo'n bosibl. Ar hyn o bryd mae gennym nifer isel, ond cynyddol o ofalwyr sy'n berthynas ac nid yw'r timau sy'n eu cefnogi wedi'u halinio'n agos â'r Gwasanaeth Maethu lle mae'r arbenigaeth i gefnogi gofalwyr dirprwyol.

Nid yw'r strwythur rheoli gyfredol yn y Gwasanaethau Plant yn diwallu anghenion y gwasanaeth neu'n adlewyrchu siwrne'r plentyn. Mae staff wedi'u lleoli mewn amrywiaeth o leoliadau nad ydynt o angenrheidrwydd yn diwallu anghenion y gwasanaeth neu'r teuluoedd a gefnogwn.

**BYDDWN YN:**

- **Ail-ddylunio ein gwasanaethau i ddilyn siwrne'r plentyn lle bo'n bosibl gyda'r nifer isaf o drosglwyddiadau o ran gweithwyr a thimau**
- **Creu timau ardal i alluogi gweithwyr i gysylltu'n agos â chymunedau a gwasanaethau lleol**
- **Datblygu Gwasanaeth Arddegau**
- **Ailstrwythuro'r gwaith o reoli'r Gwasanaethau Plant i sicrhau ein bod yn gallu diwallu'r heriau cyfredol ac yn y dyfodol ar ein gwasanaeth**
- **Datblygu gwasanaeth anabledd 'Pob Oedran' i sicrhau bod unigolion yn gallu pontio'n esmwyth i oedolaeth**
- **Datblygu cynigion i greu Tîm Lleoli'r Teulu a fyddai'n cynnwys gwarcheidwaid arbennig, maethwyr preifat, gofalwyr sy'n berthynas, gofalwyr maeth, Pan Rwy'n Barod a llety â chymorth**
- **Datblygu Strategaeth Llety i sicrhau bod gan ein staff lefydd hawdd eu cyrchu lle gallant gael at y teuluoedd y maen nhw'n gweithio â hwy**

# 11. Dilyn y plentyn ar ei siwrne

Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn dechrau derbyn cyngor, cymorth neu ofal, clustnodir gweithiwr penodol iddo. Weithiau bydd yn cael sawl gweithiwr gwahanol wrth i'w achos symud drwy'r system. Mae'n bwysig i ni fod plant a phobl ifanc yn cael cyn lleied o newidiadau â phosibl o ran gweithwyr a bod unrhyw drosglwyddiadau o ran gweithwyr a thimau yn cael eu cwblhau'n effeithiol.



**BYDDWN YN:**

- **Datblygu Gweithdrefn Trosglwyddo Achosion sy'n ymwneud â throsglwyddiadau mewnol yn y Gwasanaethau Plant, trosglwyddiadau rhwng gwahanol awdurdodau lleol ac asiantaethau partner a phrotocol ar gyfer symud achosion i fyny ac i lawr rhwng y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaethau Cymorth Cynnar. Dylai'r Weithdrefn Trosglwyddo Achosion sicrhau 'gwasanaeth di-dor' gan roi blaenoriaeth i anghenion pobl sy'n defnyddio ein gwasanaeth.**
- **Byddwn yn gweithredu cyfres o dargedau perfformiad i fonitro sut rydym yn dod ymlaen fodd bynnag gall y rhain newid ar ôl i ni gwblhau'r gwaith o ail-lunio strwythurau staffio.**

## Datblygu cerdyn adrodd misol a fydd yn cynnwys:

| % y plant ag anabledd sydd â gweithiwr pontio 4 wythnos ar ôl eu pen-blwydd yn 15 oed | % yr atgyfeiriadau i'r tîm Derbyn ac Asesu â gweithiwr penodol o fewn 24 awr | % yr achosion a drosglwyddir i'r tîm CLA erbyn 2il adolygiad y CLA (Datblygu data) |
|---|---|---|
| Datblygu Data | Datblygu Data | |

# 12. Datblygu ein trefniadau comisiynu

Mae'r Gwasanaethau Plant yn datblygu Strategaeth Comisiynu Plant â'r nod o gefnogi'r broses o ddod o hyd i leoliadau gofal priodol i blant sy'n derbyn gofal. Rydym yn gwybod er mwyn cyflawni hyn bydd angen i ni gynnig mwy o leoliadau yng Nghaerdydd i alluogi'r plant fyw'n agos i'w cartref. Bydd y Strategaeth yn nodi'r dull arfaethedig o ran comisiynu lleoliadau mewn modd strategol gan y Gwasanaethau Plant.

Bydd y Strategaeth o'r enw, **"Cartref Cywir, Cymorth Cywir" - Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Llety a Chymorth i Blant sy'n Derbyn Gofal gan Gyngor Caerdydd,** yn cyfuno'r llinynnau comisiynu lleoliadau a nodwyd, gan sicrhau bod gweledigaeth glir sy'n tanategu'r dull ac sy'n sicrhau bod y weledigaeth yn alinio â Chynllun Corfforaethol Uchelgais Prifddinas Cyngor Caerdydd. Disgwylir i'r Strategaeth gynorthwyo'r Gwasanaethau Plant o ran nodi'r ystod o ddarpariaeth breswyl a maethu newydd sydd angen iddynt ei datblygu yng Nghaerdydd er mwy diwallu anghenion cyfredol ac yn y dyfodol. Wrth symud ymlaen, bydd yn helpu â:

- Llunio gwasanaethau lleoli mewnol y Gwasanaethau Plant.
- Dull gweithio mewn partneriaeth y Gwasanaethau Plant o ran comisiynu lleoliadau â rhanddeiliaid, ac ystod o bartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat.
- Datblygu Datganiad Safle'r Farchnad (DSF) a gaiff ei gyhoeddi. Bydd y DSF yn crynhoi'r cyflenwad a'r galw o ran lleoliadau yng Nghaerdydd, ac yn dangos y cyfleoedd busnes yn y farchnad gofal plant yn yr ardal. Y diben yw rhoi amrywiaeth o wybodaeth i ddarparwyr sy'n berthnasol i'w busnes a sut y gallai ddatblygu i ddiwallu anghenion lleol.

Bydd y Strategaeth yn alinio â'r datblygiadau yn y Rhaglen Dyfodol Anabledd ac yn llunio rhan allweddol o'r Strategaeth Gwasanaethau Plant newydd hwn.


**BYDDWN YN:**

- **Meddu ar Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Llety a Chymorth i Blant sy'n Derbyn Gofal**
- **Cwblhau Datganiad Safle'r Farchnad a chynnal ymgysylltiad cynhwysfawr o ran y farchnad leol â darparwyr i gynyddu'r ysod a'r lefel o ddarpariaeth lleoliadau allanol yng Nghaerdydd erbyn Mawrth 2020**
- **Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth a gefnogir gan ystod o achosion busnes sy'n nodi ein bwriadau comisiynu; bydd y rhain yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i:**
  - **Datblygu darpariaeth wedi'i rheoleiddio newydd i bobl ifanc 16 - 20 oed erbyn Mawrth 2020**
  - **Trosglwyddo Tŷ Storrie (darpariaeth seibiant byr) i'r awdurdod lleol erbyn Mehefin 2019**
  - **Cwblhau ymarfer cwmpasu o ran Ar Ffiniau Darpariaeth Diogel (Rhanbarthol) erbyn Gorffennaf 2019**
  - **Darpariaeth breswyl brys**
  - **Asesiad (symud i fyny / i lawr) darpariaeth breswyl**

# 13. Symud y cydbwysedd o ran gofal

Rydym yn datblygu ein harferion a'n gweithdrefnau i sicrhau bod y bobl ifanc gywir yn y lleoliadau cywir ar gyfer y cyfnod cywir o amser drwy sefydlu cyfres o baneli gwneud penderfyniadau, cyflwyno mwy o gyfarfodydd ystyried Arwyddion Diogelwch, cyfarfodydd Rhwydwaith y Teulu a thrwy gyflwyno Fframwaith Ail-uno Teuluoedd.

### Strategaeth Lleihau Plant sy'n Derbyn Gofal Diogel (31 Mawrth 2019)




**BYDDWN YN:**

- **Lleihau nifer a hyd y cyfnod y mae plant a phobl ifanc yn cael eu lleoli mewn lleoliadau preswyl**
- **Cefnogi mwy o aelodau'r teulu i ddod yn ofalwyr sy'n berthynas**
- **Cefnogi mwy o aelodau'r teulu i ddod yn Warchodwyr Arbennig**
- **Adolygu'r holl blant a phobl ifanc a gaiff eu rhoi ar Orchymyn Gofal gyda rhieni ac ystyried p'un a all unrhyw rai symud i lawr i Orchmynion Goruchwylio; bydd hyn yn golygu adolygu'r dull a ddefnyddir o ran rheoli Gorchmynion Goruchwylio drwy adolygu bob 3, 6 a 9 mis gyda thargedau cyfyngiad amser wedi'u gosod ar gyfer pob cyfnod**
- **Recriwtio mwy o ofalwyr maeth awdurdod lleol**
- **Cefnogi mwy o blant a phobl ifanc gartref ar Gynlluniau Gofal ac Amddiffyn yn lle dan reoliadau Lleoli â Rhiant a all arwain stigmateiddio**
- **Cefnogi mwy o blant a phobl ifanc gartref ar Gynlluniau Gofal a Chymorth**
- **Cefnogi mwy o blant a phobl ifanc yn y Gwasanaeth Cymorth Cynnar**







# 14. Cymorth Cynnar

Bydd gan bob cam o siwrne'r plentyn ei Gynllun Gwella ei hun a fydd yn llunio'r Strategaeth Gwasanaethau Plant newydd.

Bydd datblygu'r Gwasanaeth Cymorth Cynnar yn cynnwys partneriaid o sbectrwm eang o wasanaethau. Bydd y gwasanaeth yn sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio'n llawn â'r ddyletswydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 i gynnig Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.




Uchelgais Caerdydd yw cynnig dull mwy cydlynol o ran ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol. Bydd hyn yn ein galluoogi i gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r holl deuluoedd tra'n cynnig y cymorth cywir, ar y lefel gywir, ar yr adeg gywir i'r rheiny sydd ei angen fwyaf.

Dod â gwasanaethau presennol ynghyd i greu 3 gwasanaeth newydd:

**Gwasanaeth Porth i Deuluoedd**
y prif lwybr ar gyfer pob atgyfeiriad a cheisiadau am help.

**Gwasanaeth Helpu Teuluoedd**
yn darparu ymateb cyflym i deuluoedd sydd angen ymyriad byrdymor.

**Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd**
Gweithio gyda theuluoedd sy'n wynebu problemau mwy cymhleth neu ddwys

Integreiddio gwell a rhannu gwybodaeth ar draws gwasanaethau eraill i gynnig y cymorth cywir, ar yr adeg gywir, i deuluoedd, plant a phobl ifanc.

**Canlyniadau**

- Lleihau nifer y plant sy'n cael eu heffeithio gan brofiadau plentyndod andwyol (PPAau).
- Cefnogi mwy o blant a phobl ifanc i fyw gyda'u teuluoedd
- Gwella cyrhaeddiad addysgol a dyheadau i deuluoedd
- Gwella mynediad i gyfleoedd cyflogaeth gwell
- Lleihau gwariant diogelu a gofal drwy feithrin gwydnwch mewn teuluoedd
- Lleihau gorddibyniaeth ar leoliadau maeth a phreswyl

**Datblygu cerdyn adrodd misol a fydd yn cynnwys:**

- **Nifer y bobl sy'n cysylltu â'r Porth i Deuluoedd**
- **Nifer y bobl sy'n cyrchu'r Tîm Cymorth i Deuluoedd**
- **Nifer y bobl sy'n derbyn cymorth gan y Tîm Cymorth i Deuluoedd**
- **Datblygu data ar ganlyniadau**
- **Datblygu data ar ganlyniadau**

# 15. Hyb Diogelu Amlasiantaethol

Yr Hyb Diogelu Amlasiantaethol (HDAA) yw'r pwynt cyswllt unigol ar gyfer yr holl bryderon diogelu yn gysylltiedig â phlant a phobl ifanc yng Nghaerdydd a'r mynediad ddrws ffrynt ar gyfer atgyfeiriadau Cymorth Cynnar. Felly, mae'n rhan allweddol o'n trefniadau diogelu.

Nid yw cael model HDAA yn sicrhau ymateb diogelu da. Ni fydd y label HDAA yn cynnig unrhyw fanteision oni bai bod pob asiantaeth yn cyflawni ei ddyletswyddau diogelu ei hun yn effeithiol. Yn y ffordd hon nid yw HDAA yn ateb ar gyfer gwaith rhyngasiantaeth gwael, ond bydd yn hytrach bydd yn gwella gwaith rhyngasiantaeth da os caiff diwylliannau a phrosesau effeithiol eu datblygu.

Bydd gweithio'n well â'r timau Derbyn ac Asesu yn cyfrannu at ddyraniad gwell o adnoddau yn y lle cywir ac ar yr adeg gywir. Hefyd caiff y targed o wneud penderfyniadau o fewn 24 awr o dderbyn atgyfeiriad ei wella'n sylweddol.

Bydd y cynllun cyfredol o ran y llwybrau atgyfeirio i Gymorth Cynnar yn sicrhau nad yw'r HDAA yn cael ei ddefnyddio fel 'siop un stop' ond bod atgyfeiriadau yn cael eu sgrinio gan weithwyr cymdeithasol o fewn Cymorth Cynnar â dim ond atgyfeiriadau diogelu yn cael eu prosesu gan HDAA.

Mae cael staff yn gweithio ar draws y 3 haen, Cymorth Cyntaf, HDAA / Derbyn ac Asesu a'r Hyb Cam-drin Domestig yn rhan allweddol o'r Cynllun Cymorth Cynnar a bydd y manylion yn llunio rhan o'r cynllun gweithredu.

Trwy ddatblygu'r HDAA a Cymorth Cynnar caiff y gwasanaeth cywir ei nodi ar gyfer y plentyn cywir ar yr adeg gywir. Caiff ymyriadau gwaith achos ataliol cyson seiliedig ar dystiolaeth i blant a theuluoedd eu rhoi ar waith ar y cam cynharaf o nodi pryder(on).

**BYDDWN YN:**

- **Sefydlu grŵp llywio strategol i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu ac integreiddio'r gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar, HDAA a Derbyn ac Asesu**
- **Ail-sefydlu'r Grŵp Rheoli Gweithredol ag aelodaeth a Chylch Gorchwyl diwygiedig**
- **Datblygu cerdyn adrodd perfformiad i sicrhau y cynhelir gwelliannau**
- **Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer pob pryder sy'n parhau**
- **Gweithredu Fframwaith Sicrwydd Ansawdd sy'n ymwneud â gweithgareddau archwilio â data perfformiad ac adborth gan ddinasyddion**
- **Sicrhau bod y cynigion hyn yn llunio'r Strategaeth Llety ehangach**
- **Adolygu systemau TG a nodi datrysiadau**
- **Sicrhau bod rhyngwyneb â'r cynllun gweithredu Cymorth Cynnar**
- **Datblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth**

**Datblygu cerdyn adrodd misol a fydd yn cynnwys:**

- Nifer y cysylltiadau / atgyfeiriadau a dderbyniwyd
- Nifer y plant sy'n destun cysylltiadau lluosog yn ystod y mis
- Dadansoddiad o gysylltiadau / atgyfeiriadau yn ôl ffynhonnell
- Dadansoddiad o gysylltiadau / atgyfeiriadau yn ôl canlyniad
- Cyfran y cysylltiadau / atgyfeiriadau sy'n arwain at / ddim yn arwain at asesiad


# 16. Derbyn ac Asesu

Mae'r Gwasanaeth Derbyn ac Asesu ar hyn o bryd yn derbyn yr holl atgyfeiriadau gan HDAA sydd angen camau pellach mewn perthynas â materion diogelu brys neu deuluoedd a allai fod angen gofal a chymorth.

Mae adroddiadau perfformiad yn dangos cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau dros y misoedd diweddar sy'n awgrymu eu bod yn deillio'n uniongyrchol o'r newidiadau a wnaed o fewn yr HDAA yn gysylltiedig â throthwyon a gwneud penderfyniadau.

Caiff rôl y Gwasanaeth Derbyn ac Asesu yn y dyfodol ei hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Gwasanaeth Cymorth Cynnar a'r ailstrwythuro ehangach.

Mae cynllun gweithredu mewn lle i ymdrin â'r galw cynyddol.



**BYDDWN YN:**

- **Cau'r ôl-groniad o achosion sy'n aros i gael eu cau**
- **Trosglwyddo staff i'r tîm lle bo'n bosibl**
- **Datblygu trefniadau symud i lawr cadarn ar gyfer Cymorth i Deuluoedd**
- **Adolygu trefniadau i weithwyr asiantaeth**
- **Adolygu llwybrau i'r tîm 11+ oed**
- **Adolygu llwybrau i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ar gyfer achosion ecsbloetio**
- **Trefniadau adolygu o ran asesiadau oedran ar gyfer ceiswyr lloches digwmni**
- **Adolygu'r broses ar gyfer achosion cyfraith breifat**
- **Cynnal dadansoddiad o'r prosesau busnes i sicrhau bod llif gwaith yn gwella a bod digon o gapasiti ar gael i ddiwallu'r galw**

**Datblygu cerdyn adrodd misol a fydd yn cynnwys:**

- Dadansoddiad o asesiadau lles yn ôl canlyniad
- Dadansoddiad o ymholiadau a.47 yn ôl canlyniad
- Prydlondeb asesiadau lles
- Prydlondeb ymholiadau a.47
- Llwythi achos gweithwyr cymdeithasol Derbyn ac Asesu

# 17. Cynllun Gofal a Chymorth

Mae'r adran hon yn cyfeirio at blant Caerdydd ag anghenion gofal a chymorth dan Ran 4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 ond nad ydynt ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Mae Gwasanaethau Plant Caerdydd yn gweithio gyda phlant ag anghenion gofal a chymorth a'u teuluoedd ar sail caniatâd  Mae angen caniatâd rhieni ar gyfer cynnal unrhyw ymyrraeth gwaith cymdeithasol neu roi gwasanaethau i'w plentyn.

Mae'r Cynllun Gofal a Chymorth yn glir ar yr angen nas bodlonir, beth yw'r canlyniad terfynol a sut y'i cyflawnir.   Mae modd mesur y Cynllun Gofal a Chymorth a defnyddir cwestiynau penodol er mwyn adolygu ac asesu'r lefelau o newidiadau a wneir gan y teulu

Mae amserlenni'n gysylltiedig â'r tasgau yn y Cynllun Gofal a Chymorth ac mae'n glir pwy sy'n gyfrifol am bob gweithgaredd.  Ar ôl i Gynllun Gofal a Chymorth gael ei lunio a'i gytuno gan deuluoedd caiff ei lofnodi gan yr holl weithwyr proffesiynol, aelodau'r teulu a'r plentyn (yn dibynnu ar oedran a lefel o ddealltwriaeth).  Caiff unrhyw newidiadau i'r Cynllun Gofal a Chymorth eu cytuno gan bawb sy'n gysylltiedig ac ar y cyd â'r plentyn a'r teulu.

Pan fo plentyn wedi bod yn rhan o Gynllun Amddiffyn Plant a bod gwelliannau wedi'u nodi a'r cynllun yn dod i ben, a phan fo plentyn sydd wedi derbyn gofal yn dychwelyd adref at y teulu, caiff Cynllun Gofal a Chymorth ei roi ar waith gyda'r plentyn i gefnogi datblygiad parhaus parhaol. Dylai'r cynllun hwn fod mewn lle am o leiaf 3 mis a dylai gael ei adolygu cyn iddo ddod i ben i sicrhau bod pob pryder wedi'i ateb i osgoi ail-atgyfeirio.

Rhoddir Gofal a Chymorth hefyd ar waith pan nad yw ymholiadau adran 47 wedi cael eu hatgyfeirio at y tîm Amddiffyn Plant, ond mae angen y plentyn a'r teulu am gymorth wedi'i nodi.

Mae Caerdydd wedi cyflwyno Panel Symud i Fyny a Symud i Lawr i sicrhau bod y cymorth ar y lefel gywir ar gael i nodi achosion a allai fod angen mwy o gymorth.  Bydd y Panel yn dilyn dull seiliedig ar gryfderau gan ddefnyddio'r asesiad mapio Arwyddion Diogelwch (beth sy'n gweithio'n dda, yr hyn yr ydym yn bryderus amdano a'r camau). Bydd y panel yn cyfrannu at gynllunio effeithiol, cefnogi gweithwyr cymdeithasol a chanlyniadau cadarnhaol i deuluoedd.

**BYDDWN YN:**

- **Nodi achosion lle mae plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth y gellir dod â hwy i ben**
- **Nodi teuluoedd sydd ag anghenion heb eu diwallu ond nad ydynt angen gwasanaethau statudol; dylai'r achosion hyn gael eu hatgyfeirio ar gyfer cymorth cynnar neu wasanaeth cyffredinol arall a nodir**
- **Ail-adolygu achosion y gallai fod angen eu hatgyfeirio ar gyfer asesiad lles gan Cymorth Cynnar**
- **Adolygu achosion y gallai fod angen eu hatgyfeirio ar gyfer Trafodaeth Strategaeth**

**Datblygu cerdyn adrodd misol a fydd yn cynnwys:**

- Nifer y plant ag anghenion gofal a chymorth
- Canran y plant â Chynllun Gofal a Chymorth a gefnogir i aros gartref
- Prydlondeb adolygiadau plant ag anghenion gofal a chymorth
- Nifer y newidiadau a arweinir gan y plentyn i gynllun gofal yn dilyn adolygiad (Datblygu
- Llwythi achos gweithwyr cymdeithasol

# 18. Amddiffyn a Diogelu Plant

Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan wrthi'n cael eu hadolygu a'u diwygio.

Mae Caerdydd yn rhan o Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro ac yn aelod o'r is-grwpiau amrywiol.

Nodwyd bod angen sefydlu Bwrdd Diogelu Gweithredol Lleol (BDGLI) i oruchwylio materion diogelu lleol. Mae'r BDGLI wedi bodoli ers pedwar mis, ac mae'n cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr Cyngor Caerdydd.

Nododd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ar ôl archwiliad diweddar fod llai na'r nifer disgwyliedig o blant ar y Gofrestru Amddiffyn Plant o gymharu â nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Mae data cymharol hefyd yn dangos bod plant yn dueddol o aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant am lai o amser nag mewn awdurdodau lleol eraill.

Mae'n hanfodol bod plant yn cael eu cefnogi drwy Gynllun Gofal a Diogelu cyn iddynt ddechrau derbyn gofal oni bai bod argyfwng yn atal hynny.



**BYDDWN YN:**

- **Gwella prydlondeb Cynadleddau ac Adolygiadau Amddiffyn Plant**
- **Gwella sut rydym yn galluogi rhieni a phobl ifanc i gymryd rhan**
- **Gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau amddiffyn plant**
- **Sicrhau bod gan ein gweithlu fynediad i hyfforddiant priodol**
- **Parhau i ddatblygu trefniadau diogelu rhanbarthol a lleol**

**Cerdyn adrodd misol i'w ddatblygu i gynnwys:**

- Proffil o blant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant
- Crynodeb o'r cyfnod o amser y mae plant wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant
- Prydlondeb Cynadleddau Cychwynnol ac Adolygiadau Amddiffyn Plant
- Nifer y cofrestriadau, dad-gofrestriadau ac ail-gofrestriadau
- Prydlondeb ymweliadau â phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant

# 19. Amlinelliad o Gyfraith Gyhoeddus a Chynllunio Parhad

Yr Amlinelliad o Gyfraith Gyhoeddus (AGG) yw'r fframwaith ar gyfer gweithio gyda theuluoedd i wneud popeth i atal achosion Llys. Os na ellir gwneud hyn, caiff pob asesiad ei gwblhau a bydd cynllun gofal yr achos ar waith cyn cyhoeddi'r achos.

Mae yna safonau llym gan gynnwys amserlenni o fewn yr AGG sy'n rhoi mwy o bwysau ar Wasanaethau Plant. Roedd hwn yn faes a arferai beri pryder o ran methu â bodloni amserlenni neu safonau arfer, ond mae wedi gwella yn dilyn cynllun gwella cadarn.

Mae protocol wedi'i ddatblygu fel rhan o'r cynllun gwella:

- Dull cyson o ran cynllunio gofal, gweithrediadau cyn achos ac Amlinelliad o Gyfraith Gyhoeddus
- Sut a phryd mae achosion gofal yn cael eu cyhoeddi
- Y safon o ddatganiadau, asesiadau, adroddiadau a chynlluniau gofal a roddir gerbron y Llys
- Mae rheolwr AGG yn monitro'r holl ddyddiadau ar gyfer cwblhau adroddiadau a chynnal cyfarfodydd

Ac mae'n berthnasol i:

- Blant sy'n destun Cofrestr Amddiffyn Plant lle nad oes newid digonol wedi digwydd er gwaethaf cefnogaeth sylweddol
- Pob plentyn sy'n destun gweithrediadau cyn achos
- Pob plentyn sy'n destun achosion gofal Cyfraith Gyhoeddus gyda'r nod o ddod o hyd i'r plant hynny y mae gefell-dracio yn briodol ar eu cyfer
- Cyflwyno Datganiad Tystiolaeth yr Awdurdod Lleol i'r Llys

Mae'r pwyslais (ac eithrio mewn argyfwng h.y. ceisiadau Gorchymyn Amddiffyn Brys) ar weithrediadau cyn achos. Mae hyn i sicrhau bod dewisiadau amgen mwy priodol wedi'u hystyried cyn cychwyn gweithrediadau achosion gofal cyhoeddus.

**BYDDWN YN:**

- **Cwblhau cronolegau a genogramau ac yn eu cyflwyno i'r panel**
- **Cynnal cyfarfodydd Adolygu Achos cyn y panel, fel y bo'n briodol**
- **Datblygu perthynas adeiladol â'r Farnwriaeth**
- **Hyrwyddo arferion hyderus a phendant o fewn AGG**
- **Datblygu mecanweithiau ar gyfer deialog reolaidd â'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) ac eglurder o ran disgwyliadau'r ddeialog ac o ran cydweithredu â gwarcheidwaid plant**
- **Adolygu a monitro defnydd o a.76 (gan gynnwys adolygiad ôl-weithredol)**
- **Datblygu system i nodi materion sy'n cael eu codi gan weithwyr cymdeithasol sy'n mynychu'r Llys a sicrhau bod systemau cymorth ar waith**

**Cerdyn adrodd misol i'w ddatblygu i gynnwys:**

- Nifer yr achosion nad ydynt yn cael eu cwblhau o fewn 26 wythnos (Datblygu data)
- Canran yr achosion o fewn AGG sy'n cael eu cwblhau fel rhan o weithrediadau cyn achos (Datblygu data)
- Nifer y datganiadau sy'n cael eu ceisio gan y farnwriaeth sy'n peri pryder (Datblygu data)
- % yr achosion sy'n cael eu cyhoeddi fel argyfyngau (Datblygu data)
- Crynodeb o argymhellion a phenderfyniadau (Datblygu data)




# 20. Plant sy'n Derbyn Gofal

Mae'r Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a llety, gan gynnwys plant a phobl ifanc sydd yn neu wedi gadael gofal.

Yng Nghaerdydd mae'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol yn gosod y weledigaeth a rennir ar gyfer Cyngor Caerdydd a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae gan blentyn sy'n derbyn gofal gan y Cyngor yr hawl i ddisgwyl popeth gan riant corfforaethol y byddai'n ei ddisgwyl gan riant da. Mae pob rhiant da yn gwybod bod angen amgylched diogel ar blant i dyfu a ffynnu. Mae rhieni'n diogelu a chefnogi eu plant yn erbyn peryglon a risgiau bywyd. Mae rhieni'n uchelgeisiol drostyn nhw ac eisiau iddynt gyrraedd eu potensial. Mae rhieni'n dathlu a rhannu yn eu cyflawniadau.

Mae'r strategaeth yn adlewyrchu partneriaeth yng ngwir ystyr y gair, lle nad oes yr un asiantaeth yn cael uchafiaeth ond lle mae pawb yn ymrwymedig i:

- 'Leihau'r bwlch' fel bod plant sy'n derbyn gofal yn cyrraedd eu potensial.
- Gwella gwasanaethau fel bod angen i lai o blant ddefnyddio'r system derbyn gofal.
- Gwrando ar blant sy'n derbyn gofal a gwella eu profiad o ofal lle y bo'n bosibl.

Fel rhan o'r gwaith o ail-lunio'r Gwasanaethau Plant, bydd y trefniadau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn symud o fod yn wasanaeth cynnil i ddod yn rhan o dimau lleol newydd. Bydd hyn yn sicrhau bod y broses o ddychwelyd adref ar ôl cyfnod o dderbyn gofal yn broses fwy hwylus a bod gweithwyr cymdeithasol yn gweithio gyda theuluoedd yn eu cymunedau, gan gynnwys rhwydweithiau proffesiynol lleol eraill (gan gynnwys ysgolion, iechyd a'r heddlu).

**BYDDWN YN:**

- **Adolygu ein holl blant sy'n derbyn gofal i sicrhau bod eu cynlluniau gofal yn parhau i fodloni eu hanghenion**
- **Cadw plant a phobl ifanc gyda'u teulu a ffrindiau lle bynnag fo hynny'n bosibl, yn briodol ac yn ddiogel**
- **Cyflwyno Ap i alluogi plant a phobl ifanc i gael dylanwad ar eu cynlluniau gofal ac adolygiadau**
- **Datblygu Protocol Parhad**
- **Sicrhau bod mwy o leoliadau ar gael**
- **Sicrhau bod gennym systemau ar waith i fonitro ansawdd pob lleoliad**
- **Adolygu ein gwasanaeth Swyddog Adolygu Annibynnol yn erbyn y canllaw arfer newydd**
- **Sicrhau bod ein gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol**
- **Datblygu Strategaeth Rhianta Corfforaethol 3 blynedd newydd**
- **Datblygu ein dull o gyfranogi gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnwys ail-lunio'r gwasanaeth**

**Cerdyn adrodd misol i'w ddatblygu i gynnwys:**

- Dyrannu plant sy'n derbyn gofal i weithwyr cymdeithasol
- Ymgysylltu plant a phobl ifanc â'u hadolygiadau derbyn gofal
- Plant a phobl ifanc yn dylanwadu ar eu cynllun gofal (Datblygu data)
- Prydlondeb adolygiadau derbyn gofal ac ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal
- Plant a phobl ifanc sydd wedi cael cynnig / derbyn gwasanaeth eiriolaeth (Datblygu data)

# 21. Mabwysiadu

Mae mabwysiadu'n trosglwyddo'r holl hawliau a chyfrifoldebau rhianta cyfreithiol i'r rhieni mabwysiadol. Mae rhieni biolegol y plentyn yn colli pob mynediad cyfreithiol i'w plentyn ar ôl i orchymyn mabwysiadu gael ei gymeradwyo gan y llysoedd. Gall plant mabwysiadol gadw mewn cysylltiad â rhai o'u perthnasau biolegol os cytunir ar hynny yn ystod y broses fabwysiadu – ond diogelwch a lles y plentyn yw ein prif flaenoriaeth.

Mae'r plentyn yn dod yn aelod newydd o'r teulu mabwysiadol ac yn cael yr un hawliau â phe bai wedi cael ei eni i mewn i'r teulu hwnnw.

Mae Caerdydd yn rhan o Wasanaeth Mabwysiadu Cydweithredol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (VVC), sef y mwyaf o'r pum cydweithfa ranbarthol, sy'n ffurfio rhan o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) yng Nghymru.

Mae'n cynnig gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol i Gyngor Bro Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal gan Gyngor Bro Morgannwg.

Mewn perthynas â pherfformiad rhanbarthol, mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu lleoli i'w mabwysiadu yn ystod y cyfnod, y nifer sy'n cael eu mabwysiadu a'r amser byrrach y mae'n ei gymryd i osod plentyn i'w fabwysiadu o'r Gorchymyn Lleoli yn welliannau cadarnhaol.

Mae rhywfaint o welliant hefyd wedi'i nodi o ran darparu deunyddiau Taith Bywyd i blant sy'n cael eu lleoli ac o ran y defnydd o gwnsela rhiant biolegol. Bu cynnydd yn nifer y plant sy'n aros am leoliadau a'r nifer sy'n aros am fwy na chwe mis i gael eu lleoli.

Bu gostyngiad yn nifer y mabwysiadwyr sy'n cael eu cymeradwyo ac mae oedi o ran recriwtio mabwysiadwyr yn golygu bod recriwtio yn flaenoriaeth barhaus a chlir i'r gwasanaeth.



**BYDDWN YN gweithio gyda'r Gydweithfa Fabwysiadu Ranbarthol i:**

- **Leihau nifer y plant sy'n aros i gael eu mabwysiadu**
- **Lleihau'r amser mae plant yn aros i gael eu mabwysiadu**
- **Cynyddu amrywiaeth mabwysiadwyr**
- **Cynyddu nifer y mabwysiadwyr**

**Cerdyn adrodd misol i'w ddatblygu i gynnwys:**

- Gorchmynion Lleoli sy'n cael eu cymeradwyo
- Nifer a phroffil plant sy'n cael eu gosod i'w mabwysiadu
- Y cyfnod o amser rhwng Gorchymyn Lleoli a phlentyn yn cael ei osod i'w fabwysiadu
- Nifer y plant sy'n cael eu mabwysiadu
- Gwybodaeth am fabwysiadwyr (Datblygu data)




# 22. Gadael Gofal a Chynllunio Llwybr

Mae'n ddyletswydd statudol i bob person ifanc sy'n gadael gofal gael y gefnogaeth sydd ei hangen arno i bontio'n llwyddiannus i oedolaeth a symud at fyw'n fwy annibynnol.

Dylai pobl sy'n gadael gofal ddisgwyl yr un lefel o ofal a chymorth y byddai eraill yn ei ddisgwyl gan riant rhesymol. Dylai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am eu gofal a'u cymorth sicrhau eu bod yn cael y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i dderbyn cyfrifoldebau oedolaeth. Nid dim ond y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n effeithio ar y bobl ifanc hyn. Unwaith y bydd plentyn yn derbyn gofal, bydd angen i bob aelod etholedig a swyddog yn yr awdurdod lleol, fel rhieni corfforaethol, boeni am y plentyn hwnnw ac ystyried yr egwyddorion canlynol wrth ymgysylltu ag ef a gwneud unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud ag ef:

- A yw hyn yn ddigon da i'm plentyn fy hun?
- A yw hyn yn rhoi ail gyfle os nad yw pethau'n mynd yn ôl y disgwyl?
- A yw hyn wedi'i deilwra i anghenion unigol y plentyn, yn arbennig os yw'n fwy agored i niwed na phlant eraill?

Rhaid bod cynlluniau pontio i oedolaeth i blant sy'n derbyn gofal fod ar waith ar gyfer pob person ifanc 16 a 17 oed sydd wedi derbyn gofal am o leiaf 13 wythnos ar ôl iddynt droi'n 14 oed. Dylai paratoi ar gyfer adeg pan na fyddant yn derbyn gofal mwyach fod yn allweddol i'r broses o gynllunio gofal a chymorth drwy gydol eu hamser mewn gofal. Ynghyd â phryderon ymarferol, dylai hyn hefyd gynnwys paratoadau emosiynol ar gyfer gadael gofal.

Gall y cyfnod pontio pan fydd pobl sy'n gadael gofal yn nesáu at annibyniaeth a'r adeg yn syth ar ôl iddynt adael gofal arwain at heriau sylweddol o ran lles emosiynol. Dylai gwaith paratoi i bobl ifanc sy'n gadael gofal gynnwys helpu pobl sy'n gadael gofal i ddatblygu a chynnal perthnasau gyda phobl a fydd yn gallu parhau i'w cefnogi ar ôl iddynt adael gofal.

## BYDDWN YN:

- **Datblygu gwefan ar-lein i'w defnyddio gan bobl sy'n gadael gofal ar y cyd â'u Hymgynghorydd Personol**
- **Datblygu canllaw newydd a diweddar sy'n 'addas i bobl ifanc' i bobl sy'n gadael gofal sy'n nodi ein haddewid iddynt. Bydd hyn yn cynnwys hawliau ariannol.**
- **Cwmpasu cyfraniad pobl ifanc o ran dylunio a datblygu gwasanaeth a mewnosod y model a'r dull gweithredu a lywir gan Drawma**
- **Datblygu gwasanaethau cyfryngu ymhellach ac adeiladu ar y Porth Pobl Ifanc at lety a chefnogaeth (gan ddilyn y model Llwybr Cadarnhaol)**
- **Datblygu Pasbort Iechyd i bobl ifanc 16 oed a fyddai'n helpu pobl sy'n gadael gofal i wybod a deall eu hanes iechyd; mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y symudiadau mae pobl ifanc wedi'u gwneud**
- **Adolygu Asesiadau Oedran**
- **Datblygu llwybrau integredig gyda'r ddarpariaeth Glasoed (Gwasanaeth Ieuenctid / GTI / Gwasanaethau Atal)**

**Cerdyn adrodd misol i'w ddatblygu i gynnwys:**

- Cwblhau Cynlluniau Llwybr
- Cyrchfan i bobl ifanc pan fyddant yn gadael gofal
- Pa mor addas yw llety i bobl ifanc sy'n gadael gofal
- Dyrannu Ymgynghorwyr Personol i bobl sy'n gadael gofal
- Pobl sy'n gadael gofal sydd mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth

# 23. Cefnogi plant sydd ag anabledd, anghenion dysgu ychwanegol neu ddiagnosis niwroddatblygiadol

Mae Caerdydd yn credu taw plant ydy plant. O ganlyniad, dylai cyfleoedd a gwasanaethau i'r holl blant fod y gynhwysol o ran anghenion unigolion ag anghenion ychwanegol ac anableddau.

Yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 [2] 'rhagdybir bod angen gofal a chymorth ar blentyn anabl, yn ogystal â, neu yn lle, y gofal a chymorth a roddir gan deulu'r plentyn'.

Dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg 2018 mae'r term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' yn cyfeirio at blentyn neu berson ifanc sydd ag anabledd neu anhawster dysgu sy'n galw am 'Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol' sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r hyn a wneir ar gyfer unigolion eraill o'r un oedran.

Gallai plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol fod yn fwy agored i niwed ac mae eu hiechyd a'u datblygiad yn debygol o fod wedi'u hamharu neu gael eu hamharu ymhellach heb gymorth cynnar, ymyrraeth ddwys neu ymyrraeth adferol.

Bydd y Gwasanaeth Cymorth Cynnar yn gweithio gyda'r holl blant a theuluoedd ond yn sicrhau, lle bo angen gwasanaethau arbenigol, fod sgwrs gynnar yn digwydd i sicrhau bod anghenion y teulu'n cael eu hasesu a'u bodloni gan y gwasanaethau mwyaf priodol a pherthnasol.

Mae plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau yn cael eu cefnogi drwy amrywiaeth wasanaethau ar hyn o bryd, ar draws Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a'r sector gwirfoddol.

Mae teuluoedd yn cael cynnig cymorth ar y pwynt cyswllt cyntaf yn y gwasanaethau arbenigol. Gallai hyn fod drwy apwyntiad mewn clinig, ar adeg yr enedigaeth gydag ymgynghorydd ysbyty neu drwy addysg lle mae anghenion ychwanegol yn dod i'r amlwg dros amser.

Mae gwybodaeth a gwasanaethau cynghori Ysbyty Dewi Sant yn cael eu darparu fel rhan o Dîm o Amgylch y Teulu (Anabledd) Caerdydd. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig gweithiwr allweddol i deuluoedd ac yn cefnogi teuluoedd i lywio gwasanaethau, mae Iechyd yn cynnig ymwelwyr iechyd anghenion arbennig ac mae Addysg yn cynnig cymorth cynnar i bontio i mewn i leoliadau addysg gyda'r lefelau angenrheidiol o gymorth.

Mae'r dull gweithredol hwn yn cefnogi teuluoedd ar y pwynt cynharaf i gynnig gwybodaeth, adeiladu cadernid a chysylltu â gwasanaethau i leihau'r effaith o ofalu am blentyn anabl.

**BYDDWN YN:**

- **Creu tîm anabledd Pob Oedran**
- **Datblygu ein dulliau gweithredu i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau**
- **Darparu mynediad haws i weithiwr allweddol at ddibenion cydlynu**
- **Cydweithio ag Iechyd, Addysg a phartneriaid trydydd sector i alluogi teuluoedd i gael dull di-dor o ran eu gofal ar yr amser cywir**
- **Ffurfioli trefniadau gwaith ar draws pob asiantaeth i sicrhau tegwch a lleihau dyblygu gwasanaeth**
- **Datblygu un dull o gynllunio gan ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar y person ac sy'n seiliedig ar gryfderau**

**Cerdyn adrodd misol i'w ddatblygu i gynnwys:**

- Nifer yr atgyfeiriadau at Iechyd ac Anabledd Plant a'u ffynhonnell
- Nifer y plant sy'n cael eu cefnogi gan Iechyd ac Anabledd Plant
- Dyrannu i Weithwyr Pontio
- Datblygu Data
- Datblygu Data

# 24. Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid

Mae Deddf Trosedd ac Anhrefn 1988 yn rhoi cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol i sefydlu a chynnal Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI) yn sefydliad amlasiantaethol â chyfrifoldeb statudol dros ddarparu ymyriadau, heriau a chefnogaeth i bobl ifanc a'u teuluoedd gyda'r nod sylfaenol o atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu ac aildroseddu. Mae GTI yn cynnig cefnogaeth i ddioddefwyr troseddau ieuenctid ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a chynigir amrywiaeth o ymyriadau adferol.

Mae gwelliant wedi bod yn y gwasanaeth yn barod, gyda gwaith yn cael ei wneud i wella pa mor weladwy yw'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig. I'r perwyl hwn rydym wedi:

- Gwella trefniadau adrodd ar berfformiad a rheoli perfformiad
- Ymgysylltu â Thimau Plismona Cymdogaethau i hyrwyddo Gwasanaethau Atal
- Ymgysylltu ag Addysg
- Gweithio'n agosach â'r Gwasanaethau Plant, yn arbennig y timau Diogelu Dy Hun! a'r Ganolfan Adnoddau Pobl Ifanc (ARC)
- Ehangu aelodaeth o'r Bwrdd Rheoli GTI fel y bydd mwy o asiantaethau yn rhan o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gwaith y GTI
- Defnyddio cyllid i greu swyddi ychwanegol a newydd er mwyn ymateb i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg
- Cymryd rhan yn y project Rheoli Achosion Manylach a phenderfynu ar ymyriadau priodol o fewn y model adfer trawma

Mae tueddiadau sy'n dod i'r amlwg wedi nodi cynnydd mewn ymddygiad rhywiol niweidiol (YRhN) lefel isel ledled y Ddinas ac mae Swyddog Atal YRhN wedi'i recriwtio i weithio gyda'r grŵp cleient hwn.

Dylid cydnabod bod y duedd tuag at achosion cymhlethach yn parhau, gyda hyn i'w weld ar draws pob maes gwasanaeth, gan gynnwys y gwasanaeth atal anstatudol. Mae atgyfeiriadau atal wedi cynyddu a disgwylir cynnydd pellach pan fydd y gwasanaeth yn cael ei lansio ymysg cydweithwyr yn y cyngor.

**BYDDWN YN:**

- **Hyrwyddo'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'r rhaglenni a gynigir**
- **Datblygu Protocol o ran cyd-gadeirio cyfarfodydd ecsploetiaeth**
- **Darparu amrywiaeth o friffiau cyflwyno i'n partneriaid, unigolion a'r gymuned**
- **Ffurfioli trefniadau gydag Addysg i ddarparu pynciau ataliol fel rhan o'r cwricwlwm neu i ymateb i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg**
- **Adolygu ac ail-lansio bwrdd rheoli'r GTI gan sicrhau aelodaeth briodol**
- **Datblygu cylch gorchwyl newydd ar gyfer y Bwrdd Rheoli**
- **Sicrhau bod gan y GTI strwythur llywodraethu effeithiol**

**Cerdyn adrodd misol i'w ddatblygu i gynnwys:**

- Unigolion sy'n dod i gysylltiad â'r GTI am y tro cyntaf ac ail-droseddwyr
- Ymgysylltu plant yn y system cyfiawnder ieuenctid mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- Mynediad i lety addas i blant yn y system cyfiawnder ieuenctid
- Mynediad i wasanaethau camddefnyddio sylweddau i blant yn y system cyfiawnder ieuenctid
- Mynediad i wasanaethau iechyd meddwl i blant yn y system cyfiawnder ieuenctid

# 25. Meysydd o arfer a datblygu sy'n dod i'r amlwg a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol

**I sicrhau y gallwn gynnig y cymorth cywir ar yr amser cywir i blant a phobl ifanc rydym yn y broses o ddatblygu Llawlyfr Ymarfer a fydd yn cynnwys ein dull gweithredu o ran:**

## 25.1. Cyfarfodydd Rhwydwaith Teulu

Mae Cyfarfodydd Rhwydwaith Teulu yn chwarae rôl bwysig yn hyrwyddo hawliau yn seiliedig ar ganlyniadau i blant oherwydd maent yn:

- Rhoi cyfle i deuluoedd hyrwyddo parhad ym magwraeth eu plentyn yn unol â'u cefndir ethnig, diwylliannol ac ieithyddol (Erthygl 20 CCUHP)
- Galluogi teuluoedd i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn hyrwyddo budd pennaf eu plentyn drwy nodi a defnyddio eu cryfderau unigol i amddiffyn y plentyn ac arwain y gwaith o ofalu am eu plant (Erthygl 18 CCUPH)
- Sicrhau bod y plentyn yn cael ei gefnogi i gynnal cysylltiadau teuluol, gan gynnwys perthnasau personol a chyswllt uniongyrchol â'i rieni biolegol, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a osodir gan y Llysoedd (Erthyglau 8 a 9 CCUPH)

Mae Cyfarfodydd Rhwydwaith Teulu yn ffordd o weithio sydd â'r nod o roi'r cyfle gorau i blant a theuluoedd greu diogelwch a lles i'w plant, gyda chymorth cymunedol a phroffesiynol. Maent yn galluogi gweithwyr i asesu risg yn drylwyr a chynllunio diogelwch plant; ac i weithwyr fod yn dryloyw yn eu hymarfer.

Mae'r cyfarfod yn gyfle i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd ddweud eu dweud, ac yn rhoi'r cyfle i rieni a darpar ofalwyr sy'n berthnasau arddangos sut y gallant gynnig cartref diogel mewn ffordd sydd nid yn unig yn gweithio iddyn nhw, ond sy'n datrys pryderon yr awdurdod lleol. Mae'r fantais o hyn yn hanfodol i lwyddiant lleoliad plant a phobl ifanc, gan helpu i adeiladu perthnasau cefnogol a pharhaus o fewn y rhwydwaith teulu a chyflawni'r canlyniadau gorau a lleihau'r risg o leoliad yn chwalu.

**BYDDWN YN:**

- **Cynllunio diogelwch o fewn y broses Amddiffyn Plant**
- **Cefnogi cynlluniau rhwydwaith, gan gynnwys o fewn gweithrediadau cyn achos Amlinelliad o Gyfraith Gyhoeddus (AGG) a chynlluniau Lleoliad gyda Rhiant**
- **Atal lleoliadau rhag chwalu**
- **Cynllunio aduniadau**
- **Asesu anghenion cymorth Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig**
- **Gwneud trefniadau seibiant**
- **Cynnal asesiadau rhianta / deinameg teuluoedd o fewn AGG a'r broses Llys**

## 25.2. Paneli Adnoddau

Mae'r Panel Adnoddau yn seiliedig ar y gred fod manteision unigryw i blant a phobl ifanc sy'n cael eu magu o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau eu hunain, gyda rhwydwaith o gymorth i'w helpu i reoli eu problemau a chadw'n ddiogel ac iach.

Mae'r panel yn modelu a chefnogi'r fframwaith Arwyddion Diogelwch, sy'n seiliedig ar gryfderau, a phrosesau ar gyfer gweithio, sy'n ymgorffori egwyddorion, disgyblaethau ac adnoddau asesu, cynllunio diogelwch ac ymgysylltu â phlant a theuluoedd.

Bydd y panel yn cyfrannu at gynllunio effeithiol, cefnogi gweithwyr cymdeithasol a chanlyniadau cadarnhaol i deuluoedd.



**BYDDWN YN:**

- **Lleihau'n ddiogel nifer y plant sy'n derbyn gofal**
- **Hyrwyddo sefydlogrwydd mewn lleoliadau**
- **Lleihau nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal**
- **Hyrwyddo magu plant o fewn eu teuluoedd, gan gynnwys Lleoliadau gyda rieni a Gofal gan Berthynas**
- **Dod o hyd i becynnau cynhwysfawr o gymorth i alluogi plant a phobl ifanc i aros yn eu teuluoedd eu hunain lle y bo'n bosibl, gyda phwyslais ar ymyrraeth gynnar**
- **Sicrhau bod systemau cymorth effeithiol yn cael eu rhoi ar waith fel y gall plant sydd eisoes yn derbyn gofal ddychwelyd i fyw'n ddiogel gydag aelodau o'r teulu, yn unol â'u cynllun gofal plentyn**
- **Sicrhau bod systemau cymorth effeithiol yn cael eu rhoi ar waith i atal lleoliadau rhag chwalu a hyrwyddo sefydlogrwydd o fewn lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal**
- **Cymeradwyo pecynnau cymorth therapiwtig a allai fod yn angenrheidiol**

## 25.3. Adolygu ein trefniadau ar gyfer Gofalwyr sy'n Berthnasau i gefnogi ein nod o symud y cydbwysedd gofal

Mae asesu aelodau o'r teulu neu ffrindiau agos fel gofalwr sy'n berthynas i blentyn neu grŵp o frodyr a chwiorydd nad ydynt yn gallu aros gyda'r naill riant yn un o'r asesiadau mwyaf cymhleth y gall gweithiwr cymdeithasol ei wneud.

Fel arfer bydd gan aseswr 12 wythnos ar y mwyaf i gwblhau asesiad llawn, ond weithiau bydd y Llys yn gorchymyn cyn lleied â phum wythnos. Drwy ddod o hyd i aelodau o'r teulu a chynnal Cyfarfodydd Rhwydwaith Teulu yn gynnar, gall yr awdurdod lleol gydymffurfio â'r amserlen hon.



### BYDDWN YN:

- **Creu tîm 'dirprwy deulu' newydd sy'n ymgorffori'r holl drefniadau Gofal gan Berthynas ochr yn ochr â gofalwyr maeth prif ffrwd**
- **Cefnogi aelodau o'r teulu o'r cam cynharaf posib i helpu i gadw'r plant hynny yn ddiogel o fewn eu teulu yn hytrach na'u rhoi gyda gofalwyr maeth neu fabwysiadwyr nad ydynt yn perthyn iddynt**
- **Sicrhau bod gan bob gofalwr sy'n berthynas a gofalwr Gwarchodaeth Arbennig weithiwr cymorth penodedig**
- **Defnyddio'r dull Arwyddion Diogelwch i leihau'r lefel o niwed emosiynol y mae plant yn debygol o'i dioddef o ganlyniad i gael eu tynnu allan o'u teulu, ochr yn ochr â hyrwyddo'r llwybr parhad gorau ac, yn y pendraw, y canlyniad gorau i bob plentyn**
- **Ymgorffori'r model Arwyddion Diogelwch a Chyfarfodydd Rhwydwaith Teulu i fabwysiadu dull adferol mewn ffordd sy'n hyrwyddo parch, ffydd ac ymdeimlad o berthyn; gan hyrwyddo amcan strategol allweddol fel yr amlinellir yn ein Strategaeth Rhianta Corfforaethol**

**Cerdyn adrodd misol i'w ddatblygu i gynnwys:**

- Nifer a % y plant sy'n dechrau derbyn gofal ar ôl cael eu lleoli gyda gofalwyr sy'n berthnasau
- Proffil plant mewn lleoliadau gyda pherthnasau fesul oedran
- % y plant sy'n dechrau derbyn gofal ar ôl cwblhau Asesiad Hyfywedd (Datblygu data)
- % yr Asesiadau Hyfywedd sy'n symud ymlaen i Asesiadau Unigolion Cysylltiedig llawn (Datblygu data)
- Canlyniad Asesiadau Unigolion Cysylltiedig llawn (Datblygu data)

## 25.4. Strategaeth Ecsbloetiaeth Amlasiantaethol

Fel llawer o ddinasoedd eraill y DU, mae Caerdydd yn wynebu her gynyddol yn ceisio diogelu plant a phobl ifanc rhag bygythiad mathau amrywiol o ecsbloetiaeth, gan gynnwys y canlynol:

Mae Camfanteisio'n Droseddol ar Blant yn faes o bryder cynyddol. Rydym yn gwybod mwy am y maes hwn nawr ac yn gweithio gyda phartneriaid i lunio ymateb cadarn. Gall hyn ddigwydd lle mae unigolyn neu grŵp yn cymryd mantais o anghydbwysedd pŵer i orfodi, rheoli, dylanwadu neu dwyllo plentyn neu berson ifanc dan 18 oed. Gallai'r dioddefwr fod wedi dioddef o gamfanteisio troseddol hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw Camfanteisio'n Droseddol ar Blant bob amser yn cynnwys cyswllt corfforol; gall hefyd ddigwydd drwy ddefnyddio technoleg. Mae camfanteisio'n droseddol ar blant yn ehangach na dim ond llinellau cyffuriau ac yn cynnwys, er enghraifft, plant yn cael eu gorfodi i weithio ar ffermydd canabis neu i ddwyn.

Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB) yn golygu gorfodi neu ddylanwadu ar blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n fath o gam-drin rhywiol yn gyfnewid am ryw fath o daliad a all gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'amddiffyniad' neu anwyldeb. Mae natur fregus y person ifanc a'r broses hudo a ddefnyddir gan y rhai sy'n cyflawni'r troseddau yn eu gwneud yn ddi-rym i adnabod natur gamfanteisiol y berthynas ac i roi cydsyniad ar sail gwybodaeth.

Caethwasiaeth Fodern – Mae troseddau sy'n ymwneud â phlant fel camfanteisio'n rhywiol ar blant, cardota gorfodol, tyfu cyffuriau anghyfreithlon, lladrata cyfundrefnol neu symud plentyn / person ifanc o un ardal i'r llall at y dibenion hyn gyfystyr â Chaethwasiaeth Fodern. Ni all plant a phobl ifanc roi cydsyniad i gael eu hecsbloetio felly nid oes rhaid i'r elfen o orfodi neu dwyllo fod yn bresennol i brofi trosedd. Gall fod yn aneglur ar y wyneb beth yw ymddygiad troseddol a beth yw ecsbloetiaeth. Yn aml, ni fydd plant / pobl ifanc yn rhannu gwybodaeth oherwydd y bygythiad o ddial.

Mae pob math o ecsbloetiaeth yn cynnwys lefel uchel o risg i blant, teuluoedd, y cyhoedd a staff sydd y tu hwnt i'r uned deuluol ac sydd ddim yn ffitio i mewn i ofal cymdeithasol traddodiadol. Gall diogelu plant a phobl ifanc rhag y risgiau fod yn heriol, felly mae angen partneriaeth amlasiantaethol i ymateb i'r bygythiadau a risgiau newydd a ddaw gydag ecsbloetiaeth.


Nid yw'r risg o ecsbloetiaeth yn stopio pan fydd plant a phobl ifanc yn troi'n 18. Mae newid o fod yn 'blentyn' i 'oedolyn' yn broses, nid digwyddiad.

**BYDDWN YN:**

- **Sicrhau bod ecsbloetiaeth yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a Lleol**
- **Ehangu cwmpas y strategaeth CRhB bresennol i gynnwys pob ffurf ar ecsbloetiaeth**
- **Ystyried rhoi'r rôl arweiniol i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid os nad oes pryderon diogelu eraill**
- **Datblygu prosesau uwchgyfeirio o atal cyffredinol / atal targedig, lefel uchel / diogelu a bwydo i mewn i broffilio lleol drwy wybodaeth yr heddlu**
- **Cysylltu â'r Ganolfan Cydlynu Llinellau Cyffuriau Genedlaethol newydd a dysgu ganddi**
- **Ystyried defnyddio Paneli Rheoli Risg ar gyfer yr holl risgiau ecsbloetiaeth / glasoed a allai ddisodli'r broses Cyfarfod Strategaeth Amlasiantaethol**
- **Ystyried defnyddio Paneli Rheoli Risg ar gyfer yr holl risgiau ecsbloetiaeth / glasoed a allai ddisodli'r broses Cyfarfod Strategaeth Amlasiantaethol**
- **Trefnu digwyddiad dysgu lleol yn seiliedig ar achosion diweddar**

## 25.5.Byddwn yn adolygu ac ail-lunio ein Gwasanaeth Maethu i gefnogi ein nod o newid y cydbwysedd gofal

Wrth edrych ar ganran y lleoliadau maeth sy'n cael eu darparu drwy ddarpariaeth fewnol, mae'r graff isod yn dangos mai Caerdydd sydd â'r lefel isaf yng Nghymru – dim ond 16 % o leoliadau. Mae gan Gaerdydd gyfraddau llawer uwch nag unrhyw awdurdod lleol arall o blant sy'n cael eu gosod gyda gofalwyr maeth annibynnol.




Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gymryd camau i sicrhau y gallant, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, roi llety i blant sy'n derbyn gofal a phlant eraill sy'n cael eu lletya o fewn ardal yr awdurdod lleol ac sy'n bodloni anghenion y plant. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd sicrhau bod y lleoliad, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol:

- Yn caniatáu i'r plentyn fyw'n agos at ei gartref
- Yn bodloni anghenion y plentyn fel y nodir yn Rhan 6 y Cynllun Gofal a Chymorth a'r canlyniadau a nodir yn y Cynllun Llwybr
- Ddim yn amharu ar addysg neu hyfforddiant y plentyn
- Yn galluogi'r plentyn i fyw gydag unrhyw frodyr neu chwiorydd sydd hefyd yn derbyn gofal
- Yn cynnig llety sy'n addas i anghenion y plentyn os yw'r plentyn yn anabl

Mae angen i ni fabwysiadu adolygiad system-gyfan o Faethu yng Nghaerdydd i wella'r hyn a gynigir a chynyddu pontio i leoliadau maethu mewnol. Dyma'r canlyniad gorau i blant a phobl ifanc.

### BYDDWN YN:

- **Cynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol**
- **Lleihau nifer y lleoliadau gydag Asiantaethau Maethu Annibynnol**
- **Cynyddu nifer yr achosion cymhleth a osodir gyda theuluoedd maeth (yn hytrach na phreswyl)**
- **Cynyddu nifer y grwpiau o frodyr a chwiorydd sy'n aros gyda'i gilydd**
- **Cynyddu sefydlogrwydd lleoliadau**
- **Cefnogi ein gofalwyr maeth yn llawn, gan eu galluogi a'u grymuso i gefnogi'r plant**
- **Moderneiddio'r Gwasanaeth Maethu i fodloni anghenion plant a phobl ifanc**
- **Cynnig data amser real ar berfformiad, darpariaeth a chostau**
- **Gosod targedau ac amserlenni ar gyfer cwblhau tasgau**
- **Adolygu adnoddau i sicrhau lefelau staffio digonol**

**Cerdyn adrodd misol i'w ddatblygu i gynnwys:**

- Nifer y gofalwyr maeth mewnol
- Nifer y lleoliadau
- Nifer y lleoedd gwag
- Cyfraddau trosi o ymholiad cychwynnol i gymeradwyaeth
- Nifer y digwyddiadau marchnata

## 25.6. Mabwysiadu Dull yn Seiliedig ar Gryfderau mewn perthynas ag arfer drwy weithredu'r Arwyddion Diogelwch

### Beth sy'n gweithio'n dda?

- Cymorth Gwleidyddol a Chorfforaethol
- Partneriaid yn barod i ymgysylltu
- Rhaglen Hyfforddi
- Ffurflenni'n cael eu diweddaru ar gyfer yr Arwyddion Diogelwch
- Tystiolaeth o Arwyddion Diogelwch mewn cofnodion achos
- Arwyddion Diogelwch yn cael eu defnyddio mewn Goruchwyliaeth gan rai reolwyr tîm
- Pocedi o arfer da
- Cyfarfodydd Adolygu
- Digwyddiad Dathlu
- Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal

### Beth sy'n peri pryder?

- Anghysondeb mewn arferion
- Ddim yn cael ei ddefnyddio ar draws y sefydliad
- Ddim yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau ar draws y broses cynllunio gofal
- Ddim wedi datblygu'n 'fusnes fel yr arfer'
- Hyder rhai o'r gweithwyr yn isel
- Monitro ac adrodd ar berfformiad
- Canlyniadau disgwyliedig heb eu cyflawni
- Ddim wedi cael ei ddefnyddio'n gyson mewn perthynas â Goruchwyliaeth

### Beth sydd angen i ni ei wneud nesaf?

- 'Gwneud yn Lle Dweud' bob dydd
- Ail-lunio'r grŵp llywio / arweinwyr arfer
- Gofyn i deuluoedd a staff am eu profiad
- Sefydlu Arwyddion Diogelwch ym mhob penderfyniad sy'n cael ei wneud
- Dysgu gan Werthusiad y DU o gynlluniau peilot Arwyddion Diogelwch
- Datblygu fframwaith perfformiad
- Dathlu llwyddiant a rhannu arfer da
- Datblygu cerdyn adrodd

Mae'r Arwyddion Diogelwch wedi'u mabwysiadu gan Wasanaethau Plant Caerdydd fel y fframwaith arfer cyffredinol ar gyfer eu holl waith gyda phlant a theuluoedd. Mae'r Arwyddion Diogelwch yn ddull diogelu plant sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n cael ei drefnu gan ddiogelwch sy'n ehangu'r ymchwiliad risg i gwmpasu cryfderau ac arwyddion diogelwch i lunio barn gyffredinol ar ddiogelwch gan ddefnyddio graddfa ddiogelwch. Mae gan yr adnoddau a ddefnyddir yn Arwyddion Diogelwch ddefnydd ehangach mewn lleoliadau eraill lle mae angen i weithwyr gyfathrebu â phlant am eu teimladau ac ymgysylltu â theuluoedd wrth wneud newidiadau.

Mae'r Arwyddion Diogelwch yn ymwneud ag adeiladu ar gryfderau a diogelwch sydd eisoes yn bodoli mewn teuluoedd i adeiladu dibynadwyedd ac annog teuluoedd i ddod o hyd i'w datrysiadau eu hunain i'r hyn sy'n digwydd yn eu bywydau. Nid yw diogelwch a lles yn cael eu creu mewn gwasanaethau, ond mewn cartref teuluol. Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'r plentyn neu berson ifanc, ei deulu a'i rwydwaith cymorth i adeiladu diogelwch ar gyfer y plentyn neu berson ifanc.

Mae'r fframwaith o fewn yr Arwyddion Diogelwch yn galluogi ymarferwyr i feddwl yn feirniadol a dadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd am blentyn a'i teulu gan fapio eu meddyliau am yr hyn sy'n digwydd a'r hyn y mae angen iddynt weld y teulu yn ei wneud i wybod bod y plentyn / person ifanc yn ddiogel neu fod ei anghenion yn cael eu bodloni. Mae'r broses hon yn cynnig dealltwriaeth glir o'r sefyllfa bresennol ar gyfer y plentyn hwnnw a'r teulu.

Ein huchelgais gyffredinol i blant Caerdydd yw bod pob un ohonynt yn hapus, iach, diogel a hyderus am y dyfodol.

Ein blaenoriaeth flaenaf i'r holl blant hynny y mae angen ein help, gofal a diogelwch arnynt yw eu bod yn cael eu gweld a'u clywed a'u bod yn ddiogel.

# Casgliad



Fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, wedi dechrau yn fy swydd ym mis Gorffennaf 2018, mae'n fraint ac yn gyfrifoldeb sylweddol arwain gweithrediad y Strategaeth hon. Ers dechrau yn y rôl, dwi wedi cael fy mhlesio gan gryfderau amrywiol Gwasanaethau Plant Caerdydd a natur agored y Cyngor, y gweithlu, partneriaid a phlant, pobl ifanc a theuluoedd i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â meysydd y mae angen i ni eu gwella.

Mae gan yr heriau sydd o flaen y Gwasanaethau Plant broffil corfforaethol a gwleidyddol uchel, sy'n trosi'n berthnasau gwaith da iawn ar draws y Cyngor, yn arbennig gyda chydweithwyr tai ac addysg a gyda phartneriaid yn y GIG, yr Heddlu a'r Trydydd Sector. Mae gan yr agenda hon broffil uchel yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. I wella canlyniadau i'n plant mwyaf bregus, mae angen i ni, y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, fod yn bartneriaid effeithiol i gyflawni ymateb dinas-gyfan. Mae ein partneriaeth bwysicaf gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae ein hymrwymiad i hawliau a chyfranogiad wedi llywio datblygiad y strategaeth hon a bydd yn llywio'r cynlluniau gweithredu hefyd.

Mae hwn yn gynllun strategol pwysig i Gyngor Caerdydd. Rwy'n gobeithio ei fod yn nodi'n glir sut mae'r Gwasanaethau Plant yn gweithredu yng Nghaerdydd a'n bod yn glir a gonest o ran ein targedau yn y dyfodol. Rydym yn cael ein sbarduno gan wybodaeth am ba mor dda rydym yn ei wneud, o wybodaeth am berfformiad, cwynion, canmoliaethau a gwybodaeth sicrwydd ansawdd. Mae'r dull hwn o ddeall ein safon a'n perfformiad yn golygu y gallwn gael ein dwyn i gyfrif os nad ydym yn gwneud y gwelliannau rydym wedi'u gosod i'n hunain.

Ym mhopeth a wnawn, a chredaf fod hyn i'w weld yn gryf yn y strategaeth hon, mae llais y plentyn yn ganolog. Y cwestiwn pwysicaf i'w ofyn yw "Beth sy'n bwysig i'r plentyn?". Dylai hyn gael ei ddeall ym mhob agwedd ar ein gwaith atal, ein harferion, ein prosesau comisiynu a'n gwaith i ddatblygu'r gwasanaeth. Mae'r strategaeth hefyd yn hyrwyddo dull 'Ffocws ar y Teulu' ac rydym yn ceisio cynnwys teuluoedd, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau, a lapio cefnogaeth o'u hamgylch i alluogi plant i fyw gyda'u teuluoedd eu hunain lle bynnag y bo'n bosib.

Ni allwn gyflawni'r strategaeth hon heb fuddsoddi yn ein gweithlu gwych a pharhau i'w cefnogi. Rydym yn ymrwymedig i barhau i ddatblygu ein gweithlu i weithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau, adeiladu ar gryfderau ac arwyddion diogelwch a'u cefnogi yn eu harfer. Rydym wedi newid ein model gweithredu i gefnogi gwaith lleol i alluogi gwasanaethau plant i weithio'n gadarnhaol gyda phartneriaid mewn ysgolion, gwasanaethau cymorth cynnar, gofal sylfaenol a thai a chymunedau.

Mae Caerdydd mewn sefyllfa gref i ddenu, cadw a datblygu ei gweithlu. Mae gan y ddinas lawer i'w gynnig ac mae ganddi brifysgolion a darparwyr addysg bellach da; mae angen i ni hyrwyddo manteision yr hyn sydd ar gael yng Nghaerdydd i annog myfyrwyr sy'n astudio yma i aros yma i weithio. Mae natur amrywiol y gwaith yn ein dinas, cyfleoedd am gymorth a datblygiad a chymorth gwleidyddol, corfforaethol, partneriaethol a phroffesiynol cryf yn golygu mai Caerdydd yw'r lle delfrydol i wneud gwahaniaeth i fywydau plant a theuluoedd.

Yn olaf, a gyda rheswm da, rwy'n hyderus y cyflawnwn yr holl ymrwymiadau uchelgeisiol (yr holl bwyntiau 'Byddwn yn'). Rwy'n llawn cyffro am ymrwymiad y Cyngor i gyflawni'r strategaeth 3 blynedd hon a sicrhau canlyniadau rhagorol i'n plant a dathlu pethau rydym yn eu gwneud yn dda. I'r perwyl hwn, dyma gerdd gan un o'n pobl ifanc yng Nghaerdydd. Rwy'n gobeithio y bydd yn ysbrydoli pawb sy'n rhan o'r gwaith o gyflawni'r strategaeth hon i fynd yr ail filltir i wneud gwahaniaeth.



**Claire Marchant,**

# Astudiaeth Achos – Adborth gan Berson Ifanc yn Gadael y Gwasanaeth

Diolch i chi am bopeth:

**D -** Am droi'r dyddiau du yn gorfforol ac yn feddyliol yn haws eu goddef diolch i'ch cymorth

**I -** Am beidio â gadael i mi lithro i ingoedd diffyg hyder drwy gadw'ch ffydd ynof

**O -** Am eich cymorth o ddydd i ddydd pan oedd ei angen arna i. Am eich staff a alwodd heibio i'm helpu. Allwn i ddim bod yn fwy diolchgar iddyn nhw.

**L -** Am lawer o sgiliau a ddysgais gennych i'm helpu i fyw bywyd sefydlog y gallaf ei reoli fy hun nawr bod fy nghyfnod gyda'ch gwasanaeth anhygoel yn dod i ben

**Ch -** Am chwyldroi fy mywyd. Rwyf yn meddwl am fy mywyd fel siwrnai car rydym wedi bod arni gyda'n gilydd. Petaech wedi dweud wrthyf ar ddechrau'r daith y byddwn yn gallu ymdopi gyda biliau'r cartref, mynd i'r coleg, chwilio am dŷ, fyddwn i ddim wedi'ch credu. Ond rydym wedi teithio miloedd o filltiroedd yn feddyliol ac wedi cyflawni cymaint na fyddwn wedi gallu ei wneud heb eich cymorth

**I -** Am yr ias yn fy nghefn pan feddyliaf am eich cymorth anhygoel. Byddaf yn ei gofio am flynyddoedd ac yn meddwl am yr holl droeon rydych chi wedi fy helpu. Fy nymuniad mawr yw y bydd pobl yn meddwl yn dda am y gwasanaethau cymdeithasol achos maen nhw'n bobl arbennig a dylai pawb fod yn falch iawn o'u gweithwyr. A dweud y gwir rwyf yn fy ystyried fy hun yn berson ffodus iawn o fod wedi derbyn cymorth y gwasanaeth a'r bobl wych sy'n gweithio iddo.

**Ch -** Am chwilio am y gorau ynof ac am y gefnogaeth sy'n golygu na fyddaf yn fy nghael fi hun i drwbl eto. Diolch am fy helpu i gyrraedd lle rydw i, ac am roi'r hyder i fi i wybod y gallaf roi'r gorffennol i gadw a wynebu'r dyfodol yn ffyddiog

**I -** Am fy helpu i gamu i'r Dyfodol. Diolch am eich gwaith caled a'ch credu ynof i ac am ddysgu'r sgiliau i fi fydd yn fy arwain at gyflawni pethau gwych.



UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD